# OPERATION



# TÂN!

£1.25

# RHAGAIR

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn o dan nawdd Ymgyrch Cymru dros Hawliau Dinesig a Gwleidyddol. Ymgais ydyw i ehangu gwybodaeth y cyhoedd ynglŷn ag effeithiau'r cyrch a drefnwyd gan yr heddlu ar raddfa genedlaethol ddiwedd mis Mawrth a dechrau mis Ebrill, cyrch a lysenwyd gan y wasg yn "Operation Tân". Y mae'r rheini a gychwynnodd yr ymgyrch hon ar Ebrill laf yn cynnwys aelodau Mudiad Gweithredu Uniongyrchol Caerdydd, Grwp y Marcswyr Rhyngwladol, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, y Blaid Lafur, NCCL (Cangen Caerdydd), Plaid Cymru, Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru, academwyr, undebwyr llafur ac unigolion eraill sy'n ymddiddori yn y mater. Yn y cyfarfod cyntaf hwnnw, cawsom gennad i gynhyrchu adroddiad cyn gynted ag oedd bosib, ac yr ydym wedi ei gwblhau o fewn mis.

Gallasom gynhyrchu'r adroddiad cyn gyflymed â hyn diolch i gefnogaeth a chydweithrediad y canlynol: Paul Downton, Dafydd Elis Thomas AS, Dafydd Wigley AS a Dafydd Williams. Mawr yw ein diolch i Gwerfyl Arthur am deipio mor gyflym, Siân Edwards am gyfieithu yn llawn mor gyflym o'r Saesneg i'r Gymraeg, Aled Firug am ddarparu deunydd ar gefndir y digwyddiadau a Martin Kettle am ganiatau i ni ddifynnu'n helaeth o'i sylwadaeth ar y dystiolaeth i'r Comisiwn Brenhinol ar Drefniadau Droseddol yn *Policing the Police*, Cyf 2. Carem ddiolch yn bennaf i bawb a ddychwelodd ein holiaduron ar rybudd mor fyr; nid oes neb yn mwynhau llenwi ffurflenni a gwyddom gymaint yr oeddem yn ei ofyn o fewn yr amser oedd ar gael. Heb eu cyd-weithrediad hwy, ni fyddem wedi medru ysgrifennu'r adroddiad - gobeithio y teimlant hwy mai gwrthchweil oedd eu hymdrechion.

Pris yr adroddiad yw £1.25. Croesewir pob cyfraniad, fodd bynnag, tuag at glirio dyled argraffu o dros £900 ac i gefnogaeth rhaglen waith YCHDG wedi hynny. Danfonwch unrhyw gyfraniadau i'r gronfa drwy law ein trysorydd, os gwelwch yn dda, d/o 16 Heol Shirley, Caerdydd.

SELWYN JONES (Cadeirydd, YCHDG)
PENNY SMITH
PHILLIP A. THOMAS

Ebrill 30ain, 1980.

Archebion personol am gopiau ychwanegol drwy'r post (£1.50 yn cynnwys P & P) d/o 108 Bookshop, 108 Heol Salisbury, Caerdydd. Ymholiadau masnachol: P.D.C., 27 Clerkenwell Close, Llundain EC1.

# CYFLWYNIAD

Ar y laf Ebrill 1980 cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaerdydd i drafod sut y gellid ymchwilio i weithgareddau'r heddlu fel rhan o'r ymholiadau cenedlaethol i'r ymgyrch losgi tai haf a'r bomiau a osodwyd yn swyddfeydd y blaid Geidwadol yn Shotton a Chaerdydd, a sut y gellid gwneud y gweithgareddau hynny yn hysbys. Llysenw'r wasg ar ymgyrch yr heddlu oedd "Operation Tân". Yr un diwrnod, dywedodd y Ditectydd Brif Siwperintendant Pat Molloy, pennaeth CID Dyfed-Powys:

*"Byddai'n ddoeth i'r rheini sydd wedi beirniadu ymddygiad yr heddlu dewi nes y dateglir y ffeithiau'n llawn".*

Yn y cyfarfod cyntaf cawsom gennad i baratoi adroddiad a fyddai'n cofnodi profiadau'r rheini a arestiwyd ac a holwyd ddiwedd Mawrth a dechrau mis Ebrill. Penderfynodd y grwp y dylid symud y ddadl o lefel atgof, a ddaw'n chwedl yn y man, i lefel ffaith a gwybodaeth gyhoeddus.

Ystyriwn fod yr adroddiad hwn yn gyfraniad i'r ddadl ehangach ynglŷn â swyddogaeth yr heddlu mewn cymuned ddemocrataidd. Wrth reswm, y mae Operation Tân (sef ymgyrch genedlaethol gan bedwar heddlu Cymru ar fater penodol dros gyfnod byr o amser) yn gymorth i ganolbwyntio ein sylw, ond ni chredwn y dylid ystyried hwn yn ddigwyddiad unigryw a digyswllt. Yr oedd rhaglen yr heddlu wedi ei chyd-drefnu'n effeithiol ac y mae wedi dwyn ffrwyth o safbwynt eu cylch gorchwyl hwy eu hunain. Er enghraifft, meddant bellach ar well dealltwriaeth o dueddiadau pleidleisio unigolion ym Mlaenau Ffestiniog ar ôl ymholi o ddrws i ddrws i ofyn sut y bu i bobl fwrw eu pleidlais yn yr etholiad cyffredinol diwethaf. Yn yr un modd, bydd enwau a chyfeiriadau pobl a restwyd mewn papurau personol a ddygwyd oddi ar bobl a arestiwyd neu a gadwyd yn y ddalfa wedi cyrraedd Compiwtar Cenedlaethol yr Heddlu erbyn hyn. Er gaethaf amgylchiadau eu holi, ni chyhuddwyd mo'r un o'r 52 o bobl y daethom i gysylltiad a hwy o'r dramgwydd o ddrwg-losgi neu beri niwed troseddol. Er ein bod yn gwrthod derbyn llosgi fel ffurf o fynegiant gwleidyddol, ymddengys yn debygol mai methiant oedd ymgyrch rwydo'r heddlu o safbwynt darganfod pwy oedd yn euog o hyn. Eglurhad arall ar Operation Tân, fodd bynnag, yw mai dim ond nodwedd atodol oedd yr ymgyrch losgi mewn ymarferiad y gellir ei ddisgrifio orau fel ymgais i hel gwybodaeth wleidyddol. Os mai dyna oedd eu prif nod, yna dichon i'r heddlu fod yn



llwyddiannus.

Gosodwn ger eich bron hanes profiadau'r rheini a gadwyd yn y ddalfa neu a arestiwyd, a chwiliwyd, a holwyd ac a amddifadwyd o'u heiddo personol; gofynnwn i chi ddod i'ch casgliadau eich hunain o ganlyniad i'w datganiadau hwy. Ni wneir yr un argymhelliad yn yr adroddiad hwn ag eithrio ar i bawb a'i darlleno ystyried yr ymhlygiadau ar gyfer y presennol a'r dyfodol o heddlu mwy grymus mewn economi ddirwasgedig. Gobeithio y cyfrifir yr adroddiad yn gyfraniad adeiladol i'r ddadl honno.

# AIL GARTREFI YNG NGHYMRU

Bu ail gartrefi, neu 'dai haf' yn bwnc dadleuol yng Nghymru ers rhyw ddeng mlynedd bellach. Serch hynny, ni ddechreuodd y wasg Brydeinig ymddiddori o ddifrif yn y problemau a geir gan dai haf tan yr ymgyrch losgi ddiweddar yn erbyn ail gartrefi yng Nghymru. Y mae'r rheini sy'n honni mai hwy sydd yn gyfrifol wedi datgan eu gwrthwynebiad i'r ffaith fod Cymry a Saeson yn prynu ail gartrefi tra bod llawer o bobl leol heb gartrefi o gwbl.

Bu cynnydd sydyn yn nifer yr ail-gartrefi ddiwedd y 1960au a dechrau'r 1970au ac o ganlyniad, chwyddwyd prisiau eiddo yn y cylchoedd hynny. Prynwyd tai mewn ardaloedd cymharol wledig i ddechrau ond yn raddol, aethpwyd i brynu tai yng nghanol pentrefi a threfi i'w defnyddio fel ail gartrefi. Y mae gan Gymru 20,000 o ail gartrefi , a rhestr aros o 50,000 ar gyfer tai cyngor, ond ystyrir yn gyffredinol mai amcangyfrif ceidwadol yw'r ffigurau swyddogol hyn. Dengys yr arian a glustnodwyd ar gyfer tai gan y llywodraeth ganolog ym 1978/9 mai cyfanswm o £101 miliwn mewn gwirionedd a glustnodwyd ar gyfer awdurdodau Cymru i'w fuddsoddi mewn tai, sef £74 miliwn yn llai na'r hyn yr oedd ei angen yn ôl y ffigurau swyddogol. Y mae disgrifiad yr awdurdod lleol o'r sefyllfa dai yn Nwyfor, un o ardaloedd harddaf gwledydd Prydain, yn adlewyrchu'r broblem:

*"Dengys y ffigurau eu hunain fod yna gyflenwad mwy o dai na'r galw yn y cylch, gyda rhyw 12,650 o dai ar gyfer 9,500 o deuluoedd. Dewisir, fodd bynnag, fod trigolion lleol yn ei chael hi'n anodd i brynu tai addas - a hynny oherwydd fod prisiau uchel yn y cylch yn mynd law yn llaw â chyfartaledd incwm is na'r cyffredin. Rhyw 88.9% o gyfartaledd incwm gwledydd Prydain oedd cyfartaledd incwm Gwynedd ym 1975. Yn bur aml, tai cyngor yw'r unig ddewis ar gyfer teulu ifanc".*

Y mae 7,000 o ail gartrefi yng Ngwynedd eu hun, a 4,269 o deuluoedd ar y rhestr aros am dai cyngor. Yn ôl adroddiad gan Shelter yn ddiweddar, y mae cynghorau Gwynedd gyda'r arafaf yn Ynysoedd Prydain o ran adeiladu tai. Y gofid mawr, fodd bynnag, yw'r Seisnigeiddio dybryd ar ardaloedd Cymraeg gorllewin a gogledd Cymru, a dyna brif ysgogiad yr ymgyrch ddiweddar i losgi ail gartrefi.

Cychwynnodd ymgyrch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn erbyn tai haf ym mis Gorffennaf 1972 pan dorrwyd ar draws arwerthiant tai yng Nghaernarfon gan aelodau yn protestio yn erbyn y ffaith fod pobl o'r tu allan i'r cylch yn prynu tai na fedrai pobl leol mo'u fforddio. Wythnos yn ddiweddarach ymosododd yr wrthblaid Lafur yn Nhŷ'r Cyffredin ar ddarpariaethau yn Neddf Dai 1969 a oedd yn caniatau i berchenogion ail gartrefi i hawlio cymhorthdal tuag at wella eu tai. Parhaodd ymgyrch y



Gymdeithas i feddiannu ail gartrefi yn ystod haf 1973. Yn Neddf Dai 1974 diwygiodd y Senedd ddarpariaethau 1969 fel na fyddai perchnogion ail gartrefi yn gymwys mwyach i dderbyn cymhorthdal gwella tai.

Cychwynnodd Cymdeithas Tai Gwynedd ac Adfer gynlluniau darparu tai yn y 1970au cynnar i hybu cydweithrediad gwirfoddol o fewn cymunedau lleol gan annog pobl i werthu tai neu wneud rhodd ohonynt i'r cymdeithasau, a fyddai'n eu hatgyweirio a'u gosod ar rent i bobl leol. Gan mor araf oedd datblygiad cymdeithasau tai yng nghefn gwlad Cymru hyd yn oed cyn y toriadau diweddar mewn gwariant cyhoeddus, pur gyfyngedig oedd dylanwad cynlluniau o'r fath, er bod cymdeithasau tai Cymru yn dal i weithredu yn y maes hwn ar raddfa fach.

O 1974 ymlaen, canolbwyntiodd y Gymdeithas ar ddarbwyllo awdurdodau tai lleol i brynu tai ar y farchnad agored a'u gosod i bobl leol. Ystyrid mai arwydd o ddirywiad cefn gwlad oedd tai haf yn hytrach nag un o'i achosion, ond ym 1976 meddiannwyd rhagor o ail gartrefi ym mhentref "marw" y Rhyd ym Meirionnydd fel protest symbolaidd yn erbyn y ddarpariaeth annigonol parthed cartrefi i bobl leol mewn ardaloedd gwledig. Ar ôl meddiannu rhagor o dai ym 1977, ymddangosodd nifer o aelodau ger bron Llys y Goron yng Nghaernarfon am feddiannu tŷ haf, ac fe'u carcharwyd yn ddiweddarach am wrthod talu eu dirwyon. Ceisiodd y Gymdeithas ddwysau ei hymgyrch yn erbyn tai haf yn ddiweddarach, ond er penderfynu ar ymgyrch o "ddifrod cyfyngedig" yng nghynhadledd flynyddol 1978, ni weithredwyd y penderfyniad: daeth ymgyrch y bedwaredd sianel yn ganolbwynt gweithgareddau'r Gymdeithas.

Ar Ebrill 9fed 1980 datganodd Wyn Roberts, Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru, y cwtogid ar derfynau gwariant y Gorfforaeth Dai a'r cymdeithasau tai yng Nghymru o 3% ar ffigurau 1979/80 ym 1980/81 (sef o £28.8 miliwn i £24.8 miliwn) ac y gellid cymharu'r gostyngiad hwn â gostyngiad o 12% ar gyfanswm y gyllideb dai yng Nghymru dros yr un cyfnod. Awgryma sylwadau yn y wasg fod y cyfyngiadau hyn ar wariant yn cynrychioli cwtogi sy'n agosach at 30% am 1980/81 a 45% dros y ddwy flynedd nesaf, ac amcangyfrifir na fydd yr un raglen o adeiladu tai newydd erbyn 1984.

Y mae'r don ddiweddar o ymosodiadau ar ail gartrefi yn taflu goleuni ar anfanteision ymwreiddiedig Cymru; un broblem o blith llawer yw tai. Rhyw fis cyn dechrau'r ymgyrch losgi, cyhoeddodd y Gorfforaeth Ddur Brydeinig eu bod am gau rhannau o weithfeydd dur Porth Talbot a Llanwern, gan beri colli 11,337 o swyddi. Y mae gwaith dur Shotton yng Ngogledd Cymru ar fin cau hefyd. Gan ystyried dylanwad cau'r gweithfeydd dur ar y diwydiant glo a diwydiannau eraill cysylltiedig, disgwylir i gyfanswm o fwy na 50,000 o bobl golli eu gwaith o ganlyniad i gau'r gweithfeydd dur, sef cynnydd o 50% ar y

92,757 sydd yn ddiwaith yng Nghymru ar hyn o bryd. Y mae'r raddfa o fuddsoddi economaidd, gwario ar iechyd, addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol yn is beunydd na'r raddfa am Loegr a Chymru gyda'i gilydd.
Y mae'r ffactorau hyn, ynghyd â'r fath gynnydd anferth mewn diweithdra eisoes wedi esgor ar ganlyniadau cymdeithasol enbyd. Rhaid wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol y gall Cymru ddychwelyd i ddirwasgiad cymdeithasol ac economaidd y 1930au, ond nid dim ond ardaloedd diwydiannol de a gogledd-ddwyrain Cymru sydd yn anesmwytho, fel y dengys yr ymgyrch losgi yn yr ardaloedd gwledig.

Ymosodwyd ar y tai cyntaf ar Ragfyr 13eg 1979. Erbyn y laf o Chwefror 1980 yr oedd y llosgwyr wedi ymosod ar bymtheg o dai ac yr oedd y Det. Sup. Glyn Owen wedi ei benodi i arwain yr ymholiadau yng Ngwynedd. (Cymerodd y D. S. Owen ran yng ngweithgareddau'r heddlu ym 1969 yn y cyfnod yn arwain at arwisgiad tywysog Cymru ym mis Gorffennaf 1969, ond mwy am hynny yn y man). Erbyn Ebrill 28ain, yr oedd 37 ymgais wedi bod i losgi ail gartrefi.

Ar Ebrill 25/6ain, meddiannodd un ar bymtheg o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg dŷ haf ger Aberystwyth am ddeuddeng awr; cyflwynodd y meddiannwyr ddatganiad wedi ei arwyddo ganddynt yn derbyn cyd-gyfrifoldeb am eu gweithred pan gyrhaeddodd yr heddlu, ond ar gais y perchenogion, ni ddygwyd cyhuddiadau yn erbyn yr ymgyrchwyr, a gadawsant hwythau'r tŷ yn wirfoddol. Aeth aelodau eraill i swyddfeydd asiantwyr tai yn Aberystwyth ac Aberaeron a mynd â deunydd yn hysbysebu ail gartrefi ar werth oddi yno. Y mae'r heddlu wedi holi'r rheini a gymerodd ran. Y gweithredoedd hyn yw'r cam cyntaf mewn ymgyrch yn erbyn asiantwyr tai sy'n gwerthu ail gartrefi, cwmniau sy'n berchen tai haf, ac awdurdodau lleol a allai fod yn prynu ail dai ar y farchnad agored (er bod y Gymdeithas yn cydnabod y problemau sydd ynghlwm wrth doriadau'r llywodraeth ganolog ar wariant).

GWEITHGAREDDAU'R HEDDLU CUDD YNG NGHYMRU

Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar Fawrth 24ain cadwyd nifer o bobl yn y ddalfa, arestiwyd eraill a chwiliwyd nifer o dai yn yr hyn a ymddangosai fel ymgais ar ran yr heddlu i ddod o hyd i'r llosgwyr ("Operation Tân" chwedl y wasg). Uchafbwynt yr ymgyrch oedd nifer o gyrchoedd gyda'r wawr led-led Cymru fore Sul, Mawrth 30ain, a'r rheini wedi eu cyd-drefnu'n fanwl. Yr oedd gweithgareddau'r heddlu yn cynnwys chwilio cartrefi yn drylwyr a dwyn ymaith eiddo teuluol a phersonol na allai fod a wnelo ag ymgyrch losgi. Cafodd rhyw 50 o bobl eu harestio neu eu cadw yn y ddalfa am gyfnodau o hyd at dridiau heb i'w teuluoedd, eu cyfeillion na'u cyfreithwyr gael gwybod ym mha le y cedwid hwy. Yr oedd llawer o holi'r heddlu yn ystod y cyfnod hwn yn holi gwleidyddol neu bersonol, heb gysylltiad, mewn llawer achos, â'r



tanau. Ni ddychwelwyd llawer o'r eiddo a ddygwyd ymaith gan yr heddlu er mai dim ond pedwar o'r cyfanswm o hanner cant a gyhuddwyd ac a gadwyd yn y ddalfa. Yr oedd ymholiadau Heddlu Gogledd Cymru i'r ymgyrch losgi yn cynnwys galw o ddrws i ddrws ym Mlaenau Ffestiniog i holi ynglŷn â daliadau gwleidyddol pobl a'r modd y bu iddynt fwrw eu pleidlais yn yr etholiad cyffredinol diwethaf. Gosododd yr heddlu atalfeydd ar ffyrdd yng Ngogledd Cymru hefyd, yn enwedig liw nos. Y mae'n amlwg na allwn ddweud hyd yn hyn beth oedd llawn effaith gweithgareddau'r heddlu ar unigolion a'u teuluoedd, ac ni allwn ragdybio fod yr heddlu wedi cwblhau eu hymoliadau ychwaith gan fod gofyn i nifer o'r rheini a arestiwyd i ddychwelyd i swyddfa'r heddlu ddechrau mis Mai.

Yr oedd y rheini a gadwyd yn y ddalfa, a arestiwyd ac a chwiliwyd yn cynnwys aelodau o fudiadau cenedlaethol megis Adfer, Cofiwn a Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru. Arestiwyd cenedlaetholwyr eraill yr oedd a wnelont â phrotestiadau yn erbyn yr arwisgiad hefyd. Cymerwyd rhai o aelodau 'r mudiad anarchaidd Cardiff Direct Action Movement i'r ddalfa a'u chwilio ar Fawrth 28ain ar ôl i fomiau gael eu gosod ym mhencadlysoedd y Ceidwadwyr yn Shotton a Chaerdydd. Nid dyma'r enghraifft gyntaf o weithgaredd ddyfal ar ran yr heddlu yng Nghymru mewn cysylltiad â materion gwleidyddol. Gwelwyd yr enghraifft fwyaf ddigywilydd mewn hanes diweddar o ddefnyddio'r heddlu yng Nghymru i ddibenion gwleidyddol ym 1969; gellir cymharu gweithgaredd yr heddlu bryd hynny â'r cyrchoedd diweddar hyn.

Ym 1968, penderfynodd y Llywodraeth Lafur i gynnal arwisgiad Charles, mab hynaf Brenhines Lloegr, yn Dywysog Cymru ar ei benblwydd yn 21ain oed, yn 1969. Protestiodd llawer o genedlaetholwyr yn gynddeiriog yn erbyn yr hyn a ymddangosai fel gŵr estron yn ysbeilio coron Tywysog Cymru. Er bod y mwyafrif o'r protestiadau yn rhai heddychlon, ffrwydrodd nifer o fomiau. Mudiad Amddiffyn Cymru oedd yn gyfrifol am y ffrwydriadau hyn, o dan arweiniad John Jenkins a ddedfrydwyd yn ddiweddarach i ddeng mlynedd o garchar. Erlyniwyd naw aelod o Fyddin Rhyddid Cymru yn Abertawe mewn achos a barodd bron ddau fis. Gwisgai'r FWA wisgoedd milwrol arbennig a chawsant lawer o gyhoeddusrwydd gan y wasg Brydeinig a'r wasg ryngwladol.

Gwnaeth eu llwyddiant mewn ennill cyhoeddusrwydd iddynt eu hunain waith yr heddlu yn llawer haws, ond gwelai llawer o bobl agwedd wleidyddol i'r achos. Llusgwyd y naw o'u gwelyau yn oriau mân y bore ar y 26ain o Chwefror 1969, ac fe'u cyhuddwyd o dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus ac am feddiannu gynnau. Daeth yr achos i ben yn Llys y Goron, Abertawe ar y laf o Orffennaf (diwrnod yr arwisiad) a hwn oedd yr achos hwyaf ond un yn hanes Cymru. Nododd y *New Statesman:*

*"Y mae'n dra pherthnasol i ofyn paham y daethpwyd â'r achos hwn - a olygai weithredu'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus am yr ail waith mewn mwy na 30 mlynedd - pan y gwnaethpwyd; a oedd y dedfrydau mor drugarog ag yr hawliai'r barnwr (15 mis o garchar oedd y ddedfryd fwyaf eithafol) i'w cymharu â'r dedfrydau arferol ar gyfer meddiant "an-wleidyddol" o ynnau di-drwydded - a chan ystyried y misoedd yr oedd y cyhuddiedig eisoes wedi eu treulio yn y carchar. Dichon yr awgrymai'r ateb fod yma arddangosiad cyhoeddus o rym yn ogystal â chyfiawnder".*

Ond gweithgaredd gwleidyddol fwyaf amlwg yr heddlu yn ystod y cyfnod hwn oedd y defnydd eang ac amlwg a wnaethpwyd o'r heddlu cudd. Penodwyd Det. Sup. Jock Wilson o Scotland Yard ym 1969 i arolygu'r trefniadau diogelwch yn ystod cyfnod yr arwisgiad; sefydlodd yntau ei bencadlys yn yr Amwythig. Mewn gwirionedd, yr oedd ditectyddion cyffredin yn ogystal ag aelodau o'r Gangen Arbennig yn rhan o'r heddlu cudd. Daeth eu gweithgaredd i uchafbwynt yn ystod wythnos yr arwisgiad ei hun. Cadwyd gwyliadwraeth 24 awr ar ddwsenni o genedlaetholwyr led-led y wlad. Golygai hyn chwe swyddog ar gyfer pob cenedlaetholwr, gyda phob pâr yn gweithio wyth awr ar y tro. Rhoddwyd rhif arbennig i bob person dan wyliadwraeth a throsglwyddid adroddiadau ar symudiadau'r "eithafwyr" hyn i'r pencadlys drwy deleffon mewnol. Byddai'r gweithgaredd hwn yn gwbl agored, ac yn fynych ni welai rhai o'r rheini o dan wyliadwriaeth reswm yn y byd dros yrru dau gar i bobman, felly gadawent i'r heddlu fynd â hwy i ben eu taith. Yn ôl un amcangyfrif yr oedd 200 o bobl o dan wyliadwraeth, gan gynnwys Gwynfor Evans, AS Caerfyrddin ar y pryd. Yng ngylch Aberystwyth lle mynychodd y tywysog y coleg am wyth wythnos, yr oedd y dref yn frith o heddlu a cheisiodd un *agent provocateur*, yr honnwyd ei fod yn gysylltiedig â naill ai'r heddlu neu'r gwasanaeth diogelwch, wthio llwyth o ffrwydron ar rai cenedlaetholwyr o fyfyrwyr drwy ddichell.

Y mae'r cof am y fath dramgwyddo agored a chyhoeddus ar ryddid yr unigolyn gan yr heddlu ym 1969 yn egluro i raddau paham y mynegwyd y fath bryder wedi cyrchoedd diweddaraf yr heddlu. Fel y dywedodd golygydd *Y Cymro* ar yr 8fed o Ebrill:

*"Mae'n amlwg nad oedd rhithyn o dystiolaeth yn erbyn y mwyafrif a bod peth sail o hyd i un o slogannau 1969, 'Mae'n drosedd bod yn Gymro'".*

Yn ystod y 1970au, mynegwyd pryder ynglŷn â dau fater penodol a oedd yn bygwth cyfyngu ar hawliau dinesig rhai cenedlaetholwyr. Yn gyntaf, y defnydd parod a wneid o'r cyhuddiad cynllwynio yn erbyn protestwyr dros yr iaith, ac yn ail, ymyrraeth yr heddlu wrth ddewis rheithgor yn ystod yr achos yn Llys y Goron yn erbyn dau aelod blaenllaw o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cynhaliwyd dau achos cynllwynio ym 1971 ac un arall ym 1978. Y brif feirniadaeth ar y cyhuddiad cynllwynio yw y rhydd ddwy fantais i'r erlyniaeth. Yn gyntaf, y



mae'r ddedfryd sy'n bosibl am gynllwynio i weithredu yn drymach na'r un am y weithred ei hun; yn eilbeth, rhydd dragwyddol heol i'r heddlu i rwydo pwy a fynnant. Ar ben hynny, ymddangosai fel pe bai'r rheini a erlynwyd wedi eu dewis ar sail eu safle o fewn eu mudiad, cymdeithas neu undeb llafur yn hytrach nag oherwydd eu bod o anghenraid yn euog o drosedd benodol.

Methodd y rheithgor â chytuno ar ddedfryd yn ystod achos cynllwynio Gorffennaf 1978 yn erbyn dau o swyddogion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a chynhaliwyd ail brawf ym mis Tachwedd 1978. Honnodd y diffiynyddion yn ystod yr achos cyntaf fod swyddog o'r heddlu wedi arwyddo i'r erlynydd pa reithwyr y dylid eu gwrthwynebu, ond adlewyrchai'r rhestr derfynol o enwau boblogaeth Gymreig cylch Caerfyrddin: Williams, Hughes, James, Phillips, Roberts, Griffiths, Jones, Matthews, Davies, Williams, Williams a Williams. Cynnwys y rhestr derfynol o reithwyr ar gyfer yr ail achos oedd: Andrews, Carlisle, Pringle, Hanson, Allen, Amner, Birdwood, Adams, Day, Curwood a Brooks. Fel yr adroddodd y *New Statesman* ar y 7fed Rhagfyr 1978:

*"Yr oedd y duedd yn achos Caerfyrddin yn llai diniwed, gan mai achos lled-wleidyddol oedd hwn ynglŷn â'r iaith Gymraeg. Mewn achos blaenorol - gyda rheithgor a oedd bron i gyd yn Gymry Gymraeg - methwyd â chytuno ar ddedfryd, a hwn oedd yr ail achos. Gwysiwyd deugain o reithwyr yn y 'panel' ar gyfer yr achos newydd; dim ond 40% o'r rheini oedd â chyfenw Cymreig. SIAWNS O UN MEWN DENG MIL SYDD I GANRAN MOR ISEL GAEL EU DETHOL AR ANTUR ... Yn siar, peth hynod, mewn achos o gryn sensitifrwydd gwleidyddol, yw canfod fod dethol y rheithgor yn mwylo rhywrai a wnai eu ffortiwn pe defnyddient eu gallu i oresgyn ffawd ar y cae ras".*

Bum mis yn ddiweddarach, cydnabyddwyd yn swyddogol fod ymyrraeth wedi bod ar y rheithgor. Derbyniodd Dafydd Elis Thomas, A.S. Meirionnydd, lythyr oddi wrth yr Arglwydd Belstead o'r Swyddfa Gartref:

*"Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cartref adroddiad gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, a benododd swyddog hŷn i ymchwilio i'r mater. Dangosodd yr ymchwiliad ei bod hi'n wir i swyddog heddlu o safle is, a weithredodd heb awdurdod, sicrhau copi o restr y rheithwyr awr cyn dechrau'r ail achos ac ymgymryd ag archwiliad cyfyngedig. Ni ddatgelodd yr ymchwiliad hwn unrhyw wybodaeth a oedd yn berthnasol i naill ai'r erlyniad neu'r amddiffyniad, ac ni weithredwyd ymhellach".*

Y mae'n amlwg nad yw gweithgaredd wleidyddol gan yr heddlu yng Nghymru yn ffenomenon newydd, ond nid yw hynny'n gwneud y fath ymddygiad ronyn yn fwy derbyniol, fel y dengys y dystiolaeth a gyflwynwn ynglŷn â gweithgareddau diweddar yr heddlu.

Dywedodd llawer o bobl y teimlant y gwnaed drwg i'w henw da yn eu cymunedau lleol ac yn eu gwaith. Collodd un person ei swydd oherwydd iddo gael ei arestio, er na chafodd ei gyhuddo ac i ddyddiad ei fechniaeth gael ei ollwng. Mae llawer yn poeni y cant eu labelu fel "eithafwr", fel a ddigwyddodd i rai cenedlaetholwyr yn ystod cyrch yr heddlu ym 1969, a gwyddant am ba hyd y pery label o'r fath. Sefydlwyd y cyfryw ddulliau o weithredu gan yr heddlu eisoes o dan y Ddeddf Atal Brawychiaeth ac fe'i gwneir yn llawer haws iddynt os a phan estynnir y pwerau yr arfaethir eu rhoddi i'r heddlu o dan y Mesur Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) i Loegr a Chymru.



ENGHRAIFFT O HOLEB

1. Ar ba ddyddiad(au) ac am faint o'r gloch y daeth yr heddlu atoch?
   *Bore Sul, 30 Mawrth 1980 am 6 a.m.*

2. Ym mhla le y digwyddodd hyn, e.e. gwaith, stryd, cartref etc.
   *Cartref*

3. A oedd yr heddlu yn eu hiwnifform a/neu mewn dillad arferol, a faint a heddlu oedd yna,
   *Un-ar-ddeg o heddlu, dau neu dri mewn iwnifform*

4. A gynigwyd tystiolaeth mae heddlu oeddent? neu a roddwyd tystiolaeth mai heddlu oeddent os y gwnaethoch ofyn am hynny ?
   *Dangosodd un Rhingyll ei gerdyn adnabod*

5. A wnaeth yr heddlu roi sail am eu hymweliad, e.e. gweithgareddau arbennig/troseddau/deddfwriaeth e.e. Deddf Rhwystro Terfysgaeth etc.
   *"Arrest" am "ddifrod troseddol" - y wraig a fi.*

6. A gawsoch eich arestio neu eich 'gwahodd i gynorthwyo'r heddlu gyda'u hymchwiliadau'
   *Ein harestio.*

7. A ddywedwyd wrthych y byddech yn cael eich arestio os y byddech yn gwrthod gwahoddiad yr heddlu i fynd gyda hwy yn wirfoddol?
   *Dim llawer o ddewis!*

8. A roddwyd unrhyw bwysau arnoch i'ch annog i fynd gyda'r heddlu i orsaf yr heddlu, Os do, rhowch fanylion byr.
   *Gorfodaeth!*

9. A oedd teulu/cyfeillion/cydweithwyr yn bresennol yn ystod ymweliad yr heddlu? Os oedd, sut y cawsant eu trin gan yr heddlu?
   *Dim ond y wraig, a'r 3 plentyn yn ddiweddarach.*

10. A gafodd eich car/llety/eiddo arall ei chwilio, Os do, a ddangoswyd gwarant.?
    *Archwiliwyd yn fawr iawn, iawn, y tŷ, adeiladau buenes ac aethpwyd â'r ddau gar ymaith. Dangoswyd gwarant.*

11. A aethpwyd â pheth o'ch eiddo ymaith, Os do, beth a phryd, Os y cafodd ei ddychwelyd, rhowch fanylion am y dyddiad a'i gyflwr .
    *Tua 50 o eitemau, y dydd hm. Dim ond 4 eitem a ddychwelwyd hyd yn hyn (7 Ebrill 1980).*

12. A chwiliwyd eich person? Os do, dywedwch (i) cyn neu ar ôl eich arestio; (ii) ble; (iii) a ddangoswyd gwarant?
*Do; ar ôl arestio; yn y tŷ ac wedyn yn Swyddfa'r Heddlu X, ni ddangoswyd gwarant arbennig i chwilio'r person.*

13. A aethpwyd â chi i orsaf yr heddlu? Os do, ble ac am faint o'r gloch ac ar ba ddyddiad?
*X tua 7.30 a.m. fore Sul, Mawrth 30; yna ymlaen i Y.*

14. A roddodd yr heddlu wybod i unrhyw un o'ch ffrindiau/teulu a oedd yn bresennol ymhle y cedwid chi? A oedd y wybodaeth honno'n gywir?
*Na. Cafodd y wraig wybod, ond neb o'r teulu (gan ei bod hi hefyd dan glo, ni allai roi'r wybodaeth i neb arall).*

15. A ddywedodd yr heddlu wrthych am unrhyw hawliau a allai fod gennych yn ystod cyfnod eich cadw? Os do, beth a ddywedwyd wrthych a phryd?
*Dywedwyd bod hawl i gysylltu ag un person ond eu bod nhw (yr heddlu) yn diddymu'r hawl am y byddai'n "impede the course of justice!!"*

16. A wnaethoch gais am gael cysylltu â theulu/cyfeillion/cyfreithiwr ar y ffôn ar unrhyw adeg? Os do, dywedwch pryd, h.y. cyn a/neu yn ngorsaf yr heddlu?
*Do (1) yn y tŷ. Gwrthodwyd i mi gysylltu â'm gwraig (a oedd yn y gwelu) cyn ymadael. (2) Yn X. Gwrthodwyd (gw. ateb 15).*

17. Os na chaniatawyd y fath gysylltu, pa reswm(resymau) a roddwyd a phryd?
*Gwrthodwyd/anwybyddwyd. Geiriau fel: "O, mae hynny yn mwylo'r heddlu. Dim byd i'w wneud â ni. Cewch eich cymryd oddiyma pan fyddan nhw'n penderfynu".*

18. A wnaeth eich teulu/cyfeillion/cyfreithiwr ymgais i gysylltu â chi ar y ffon neu mewn unrhyw ddull arall yng ngorsaf yr heddlu? Os do, a ganiatawyd iddynt wneud hynny a phryd?
*Gwnaed sawl ymgais gan fy mrawd a rhai cyfreithwyr, i gyd yn aflwyddiannus.*

19. Os na chaniatawyd i deulu/cyfeillion/cyfreithiwr gysylltu â chi, pa reswm(au) a roddwyd, A ddywedodd yr heddlu wrthych am unrhyw gais gan y fath bobl i gysylltu â chi?
*Ni ddywedwyd wrthyf ddim oll. Ni wyddwn fod fy ngwraig dan glo, hyd yn oed. (Nid oeddwn yn deall bod 'arestio' yn golygu o angenrheidrwydd "cadw dan glo".*

20. A gawsoch eich cadw mewn ystafell/cell/man arall wedi ei chloi/heb ei chloi? Phowch fanylion.
*Cell wedi ei chloi, tan tua 7.30 p.m. nos Lun, Mawrth 31.*



21. Os na arestiwyd chi, a wnaethoch gais i adael yn ystod y cyfnod y'ch cadwyd, ac ar ôl faint o amser? Os do, beth oedd ymateb yr heddlu ibh cais?
—

22. Pa gyfleusterau a roddwyd i chi yng ngorsaf yr heddlu yn ystod cyfnod eich cadw? e.e. bwyd, defnyddiau ysgrifennu, ystafell?
*Bwyd. Dim byd arall, dim ond 2 flanced wedi torri. Cymerwyd fy wats, fy ngwregys ac yn X, fy esgidiau.*

23. A ofynnwyd i chi ddatgan eich symudiadau ar adegau arbennig a/neu gofyn am enwau a/neu gofyn a oeddech yn adnabod pobl arbennig a enwyd gan yr heddlu? A ofynnwyd a oeddech yn aelod o blaid wleidyddol arbennig neu fudiad? Pa gwestiynnau eraill a ofynnwyd (manylion byr)?
*Cefais fy holi'n fawl iawn (tua 9.00 - 9.30 p.m. nos Lun, Mawrth 31) yn X gan Dditeotif a Rhingyll, ynglŷn â (a) bob math o ddogfennau/llythyrau/cyfeiriadau a veleant yn fy swyddfa; (b) fy symudiadau diweddar, ar droed ac yn y car, yn arbennig yr wythnos cynt, a'r nos Sadwrn (Mawrth 39). Ni soniwyd am Blaid Cymru, ond holwyd yn fawl iawn am fy ngwybodaeth am y mudiad "Cofiwn".*

24. A gawsoch eich bygwth os y methasoch gydweithredu yn ystod cyfnod eich cadw gan yr heddlu? Os do, beth oedd ffurf y bygythiadau?
*Cefais fy mygwth yn sarhaus iawn gan swyddog hyn. Dywedodd y cawn fy ngharcharu am oes ac y cawn 'the most unforgettable interrogation of your life' ar ôl fy nghymryd i gell 'mewn adeilad cyfagos' (a rhoi'r cyfan mewn ffordd neis!). Taflwyd fy sbectol ar y gwely; taflodd 2 ohonynt fi ar y gwely pan wrthodais dynnu fy esgidiau. Digwyddodd hyn yn X tua 9 fore Sul, Mawrth 30.*

25. A fu'n rhaid i chi ddioddef bwysau corfforol a/neu emosiynol? Os do, rhowch fanylion a disgrifiwch yn fyr, ac ar ba adeg(au) yn ystod eich cadw?

26. A awgrymodd yr heddlu y byddech yn cael eich cyhuddo? Os do, ac ar ba adeg?
*Awgrymwyd yn gryf iawn iawn y cawn fy nghyhuddo ar yr adeg yma ond NI chefais fy nghyhuddo mewn gwirionedd.*

27. A gawsoch eich cyhuddo o drosedd? Os do, beth oedd y cyhuddiad a phryd y gwnaed hynny?

28. Os yw'r ateb i (2) neu (27) uchod yn gadarnhaol, a oedd y cyhuddiad terfynol yn ymwneud a sail wreiddiol yr heddlu am eich cadw e.e. cyhuddiad yn ymwneud â chyffuriau ar ôl ymholiad gwreiddiol

ynglŷn â'r ymgyrch losgi?
--

29. A roddwyd mechniaeth i chi os y'ch harestiwyd a'ch cyhuddo? (i) A wnaeth yr heddlu gynnig mechniaeth neu (ii) a fu'n rhaid i chi/eich teulu/cyfeillion/cyfreithiwr ofyn am fechniaeth?
*Na*

30. Os na chawsoch eich cyhuddo, a roddwyd unrhyw amodau cyn i chi gael eich rhyddhau, e.e. cytuno i fynd yn rheolaidd i swyddfa'r heddlu?
*Na - dim amodau o gwbl*

31. Ar ba ddyddiad ac am faint o'r gloch y cawsoch eich rhyddhau?
*Tua 9.30 p.m. nos Lun, Mawrth 3l.*

32. A gynigwyd unrhyw gyfleusterau i chi gan yr heddlu ar ôl i chi gael eich rhyddhau? e.e. eich cario adref os oedd angen.
*Cefais gynnig lifft, ond gwrthodais gan fod fy mrawd wedi cyrraedd erbyn hyn. (Cafodd wybod fy mod yn X trwy fy ngwraig, a oedd wedi ei rhyddhau erbyn hyn).*

33. A ystyriwch y cyfyngwyd ar eich hawliau suful drwy ymweliad yr heddlu/eich cadw ganddynt? Os ydych, sut?
*Ydw. Roeddwn yn gwbl ddieuog ac nid oedd gan yr heddlu ddim tystiolaeth o gwbl yn fy erbyn. Mae'n amlwg mai eu bwriad nhw oedd casglu tystiolaeth ar ôl arestio. Mae hyn yn gamddefnydd erchyll o "arest". Mae'n golygu fod gan yr heddlu yr hawl i gloi unrhyw un mewn, unrhyw bryd (ac archwilio ei dŷ heb ganiatad).*

34. Os yw'r ateb i (33) uchod yn gadarnhaol, (i) a ydych yn bwriadu rhoi cwyn ffurfiol yn erbyn yr heddlu (ii) a ydych eisoes wedi gwneud cwyn ffurfiol (iii) a oes gennych farn ar y drefniadaeth parthed cwyn ffurfiol yn erbyn yr heddlu.
*(i) ydwyf (ii) ydwyf.*

35. A ddymunwch i'ch atebion i'r arolwg gael eu rhoddi i'ch A.S.?
*Iawn.*

36. A ddymunwch i Dafydd Elis Thomas weld a defnyddio eich ymateb (na chaiff ei gyhoeddi) i'r arolwg hwn?
*Croeso!!*



*ENGHRAIFFT O LYTHYR*

*"Rwy'n ysgrifennu atoch i gwyno am ymddygiad yr heddlu yn ystod y 'raids' a gymerodd le yn ystod y pemwythnos diwethaf. Cefais fy arestio yn gynnar iawn - tua 5 o gloch y bore - ar y 30ain Mawrth, ac ni chefais fy rhyddhau hyd y prynhawn Mawrth canlynol, 1 Ebrill. Cefais fy arestio mewn dull 'spectacular' iawn, gyda 4-6 o heddlu mewn gwisg arferol yn ogystal â hedd-fenyw mewn iwnifform yn rhuthro i mewn i fy ystafell welly ar ôl torri i mewn i'r fflat drwy dri o ddrysau a oedd ar glo.*

*"Dywedwyd wrthyf am wisgo amdanaf a thrwy'r adeg roedd yr heddlu yn mynd ac yn dod i fewn ac allan o'r ystafell. Trwy gydol yr amser roedd yna 4 ohonynt yn fy ystafell wely. Mynnais gael gweld gwarant, ac yn y diwedd dangoswyd un i mi, yn dweud eu bod yn chwilota'r fflat am fy mod i wedi achosi £250,000 o ddifrod i eiddo.*

*"Dechreuwyd chwilota yn y fflat tra roeddwn i yno ac rwy'n deall eu bod wedi bod wrthi yn chwilota yno am ddiwrnod cyfan ar ol i mi gael fy nghludo i X. Cymerwyd fy mhyrsiau (2) a bag ysgwydd yn ogystal â thri dyddiadur oddi arnaf cyn i mi adael y fflat. Ni chefais daleb amdanynt.*

*"Chwilotwyd fi yn X. Gofynnwyd i mi roi enw un person y gallwn gysylltu ag ef, a phan roddais enw, dywedwyd wrthyf na chysylltid â'r person hwnw nes buasai'r ymholiadau wedi dod i ben. Rhoddwyd fi mewn cell ac yna daeth swyddog hyn i mewn, dywedodd wrthyf mewn ffordd gas iawn i sefyll yn erbyn y wal. Rhoddodd araith hir i mi ar faint yr oedd yn casau terfysgwyr, ail-adroddodd rai o'r cynlluniau a oedd wedi eu trefnu yng nghynhadledd Cofiwn ar y dydd Sadwrn ym Machynlleth, gan ofyn i mi os oeddynt yn canu cloch. Dywedwyd wrthyf mae terfysgwraig oeddwn ac felly doedd gennyf ddim hawliau. Dywedwyd wrthyf hefyd fy mod yn mynd i gael fy holi am gyfnod hir iawn a buasai pethau yn mynd yn gas iawn cyn y diwedd. Yna cludwyd fi i Y a rhoddwyd fi mewn cell yno, ac ni chefais wybod beth oedd yn digwydd hyd bnawn Llun. Cefais fy holi yn y gell, ac yna cefais fy holi eto nos Lun. Cludwyd fi yn ôl fore Mawrth i X gan bennaeth yr ymchwiliadau, siwrnai gas iawn wrth iddo farnu holl aelodau 'Cofiwn'. Cefais fy holi eto yn X a'm gosod yn ôl mewn cell ac yna daeth swyddog hyn i mewn i ddweud wrthyf fy mod yn cael fy rhyddhau. Gofynnais beth oedd yn digwydd i fy nghariad a gafodd ei arestio gyda fi a dywedwyd wrthyf ei fod yn mynd i gael ei gyhuddo ac y buasai i ffordd am 12 mlynedd o leiaf. Nid oedd hyn yn wir. Mynnais gael cludiant yn ol i Z. A phan dde yn ôl i'r fflat, gwelais fod y lle mewn cyflwr annhrefnus dros ben, gyda blaen y lle tan wedi ei dynnu yn y gegin a phardduwm mhobman. Roedd hi'n amhosibl defnyddio'r llofft am dri diwrnod nes inni allu gorffen clirio'r llanastr.*

*"Rwyf ers hynny wedi sylwi bod llawer o'm heiddo personol i yn ogystal ag eiddo Cofiwn wedi ei gymryd o'r fflat.*

*"O'm heiddo personol i mae fy nyddiaduron (3), siec,*

*llythyrau, posteri, baner, rucksack, tapiau, llyfrau a lluniau wedi eu cymeryd.*

*"O eiddo 'Cofiwn' mae gwerth dros £400 o posteri, bathodynnau, taflenni, pob math o lenyddiaeth, lluniau ar flociau, teipiadur, llwythi o ffeiliau etc. etc. Rydym wedi ysgrifennu at bennaeth yr heddlu yn y gogledd (yr un sy'n gyfrifol am ymchwilio i mewn i'r tannau) yn gofyn am yr eiddo yma'n ôl. Roeddem yn credu ei fod yn cael ei gadw yn W, felly rydym wedi bod yno yn gweud ymholiadau. Ond croeso oeraidd iawn gawsom ni gan yr heddlu ar y ddeag yno.*

*"Y prif burpas dros i mi ysgrifennu atoch ydyw am fy nod yn poeni am yr eiddo yma. Buaswn yn ddiolchgar iawn os gallech chi edrych i mewn i lle mae'n cael ei gadw a gweud cais i'r heddlu i ddod a'r cwbl yn ôl i'r fflat. Gan obeithio y cewch chi fwy o lwc na chefais i yn hyn o beth".*



# DAMCANIAETH GYFREITHIOL AC ARFERION YR HEDDLU

Lluniwyd yr holiadur i sicrhau gwybodaeth ynglŷn â phrif elfennau pwerau sydd gan yr heddlu cyn rhoi neb ar brawf, pwerau a oedd yn amlwg yn Operation Tân. Yr oedd amser yn elfen holl-bwysig yn y modd y trefnwyd yr arolwg, gan i'r grŵp gytuno y dylai'r adroddiad ymddangos cyn gynted ag oedd modd. Effeithiodd hyn o reidrwydd ar ein methodoleg ac ar gynnwys yr adroddiad terfynol. Nid oedd rhestr barod o'r bobl yr effeithwyd arnynt gan ymgyrch yr heddlu ar gael; lluniasom restr gyda chymorth rhwydweithiau cymdeithasol a gwleidyddol led-led Cymru. Ar Ebrill 3ydd (ddeuddydd ar ôl i'r grŵp gyfarfod am y tro cyntaf) danfonasom lythyr a holiadur at 45 o bobl y gwyddem i'r heddlu ymweld â hwy yn ystod eu hymholiadau (danfonwyd yr un deunydd at nifer o bobl eraill y clywsom am eu profiadau yn ddiweddarach). Danfonwyd yr ohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl p'run oedd iaith gyntaf yr unigolyn, a chynhwyswyd copi arall yn y gobaith y trosglwyddid hwnnw i rywun arall yr effeithwyd arno, lle'r oedd hynny yn briodol. Ni ddanfonwyd llythyron i ddilyn ymlaen ar hynny, er y byddai gwaith arferol ar arolwg mewn gwyddor gymdeithasol wedi cynnwys o leiaf un llythyr o'r fath.

Dychwelwyd y llythyron drwy law A.S. parod ei gymwynas ac fe'u cadwyd yn niogell cyfreithiwr tan i ni gychwyn ar ein dadansoddiad. Erbyn Ebrill 30ain, y diwrnod y cwblhawyd yr adroddiad, cawsai 43 o holiaduron eu dychwelyd a chawsom addewid am fwy eto. Y mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli ymateb o 82% oddi wrth y 52 o bobl y cysylltwyd â hwy yn wreiddiol. Yr ydym o'r farn fod graddfa mor uchel o ymateb mewn amser mor fyr yn adlewyrchu teimladau cryf y rheini y daethom i gysylltiad â hwy.

Atgynhyrchwyd dau adroddiad cyflawn ar ddechrau'r adran hon oblegid carem i'r darllenwyr gael cyfle i amgyffred yn llawnach beth oedd hyd a lled gweithgareddau'r heddlu. Wedi hynny, byddwn yn edrych yn fanwl ar y gyfraith o safbwynt pwerau'r heddlu ac yn adrodd y profiadau y cawsom wybod amdanynt.

CADW YN Y DDALFA AC ARESTIO

Y mae'r gyfraith ar arestio yn ddryswch cymhleth. Fel y dywedodd yr Athro de Smith, cyfreithiwr cyfansoddiadol blaenllaw: "Yn anffodus, nid oes yr un gangen o Gyfraith Lloegr sydd yn fwy tywyll a mwy cymhleth na honno sydd yn ymwneud â phwerau arestio". Yn ymarferol,

y mae gan yr heddlu bwerau eang i arestio, a chan mai peth anghyffredin iawn yw hi i'r dinesydd i wybod beth yw'r pwerau hynny, pur anaml y bydd modd iddo herio dilysrwydd yr arestiad ar y pryd. (Dyma bwynt y mae Comisiynydd yr Heddlu Metropolitaidd, Syr David McNee yn ymdrin yn helaethach ag ef yn ei dystiolaeth i'r Comisiwn Brenhinol ar Drefniadaeth Droseddol a drafodir gennym yn yr adran ar batrymau heddgeidwadaeth).

Rheol gyffredinol ynglŷn ag arestio yw fod yn rhaid i ymyrraeth yr heddlu â rhyddid yr unigolyn fod yn seiliedig ar ryw reol gyfreithiol bositif cyn y bydd yn gyfreithlon. Felly y mae arestiad yn anghyfreithlon *prima facie* a rhaid ei gyfiawnhau o dan ryw awdurdod cyfreithiol (e.e. Deddf Difrod Troseddol 1971); nid yw "lles y cyhoedd" yn sail ddigonol. Rhaid i heddgeidwad fod â lle rhesymol i ddrwgdybio cyn arestio neb. Nid yw hyn yn golygu fod yn rhaid bod digon o dystiolaeth ar gael i greu achos *prima facie*. Ond ar yr un pryd (neu dyna'r ddamcaniaeth, o leiaf) nid arestio yw cam cyntaf neu gam rhagarweiniol ymholiad gan yr heddlu, ac ni ellir ei ddefnyddio fel dull o gadw unigolyn yn y ddalfa tra sicrheir gwybodaeth.

Beth yw arestiad? Dylai'r person sy'n arestio egluro wrth y carcharor beth yw'r rhesymau am ei arestio ar adeg yr arestiad onid ydyw amgylchiadau'n golygu na ddylai'r person a arestiwyd wybod natur gyffredinol y drosedd honedig. Yn *Christie v Leachinsky (1947)* cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi pan fo heddgeidwad yn arestio heb warant ar sail drwgdybiaeth resymol fod yn rhaid iddo hysbysu'r carcharor o'r gwir reswm am ei arestio. Ni raid iddo ddefnyddio iaith fanwl-gywir neu dechnegol, ond dylid egluro i'r carcharor sylwedd y rheswm dros ei gadw yn y ddalfa. Os na wneir hynny, gall yr heddgeidwad fod yn agored i gyhuddiad o garcharu ar gam.

Rheolir cyfraith arestio'r dydd heddiw gan ystatud: deddfir gan adran 2 o'r Ddeddf Cyfraith Troseddau y gall heddgeidwad arestio heb warant pan fydd y drosedd o dan sylw yn un sy'n dwyn cosb o bum mlynedd o garchar. Daw difrod troseddol o fewn y categori hwn, a dyna'r tramgwydd y drwgdybid y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg hwn ohono. Wrth gwrs, ni ddefnyddir arestio ddim ond i ddod â phobl ger bron llys. Fel y dengys tystiolaeth yr arolwg, ni chyhuddwyd yr un o'r atebwyr a arestiwyd neu a gadwyd yn y ddalfa o ddifrod troseddol (sydd yn cynnwys drwg-losgi) ond fe'u holwyd bob un. Holwyd hyd yn oed berthnasau nas harestiwyd yn yr hyn a ymddengys oedd yn ymgyrch i hel gwybodaeth.

Beth yw ystyr "cynorthwyo'r heddlu â'u hymholiadau"? Byrdwn y farn gyfreithol am hyn yw fod person a â i swyddfa'r heddlu yn wirfoddol er mwyn ateb cwestiynau yn rhydd i ymadael hyd oni wneir yn glir iddo ef neu hi nad dyna'r sefyllfa mwyach. Yn y gyfraith, nid oes man hanner ffordd rhwng rhyddid dilyffethair y goddrych



ac arestiad. Cyn gynted ag yr atelir person, neu y dywedir wrtho yr atelir ef rhag ymadael, y mae'r person hwnnw wedi ei arestio. Yn ddamcaniaethol, oni fedr yr heddlu ddangos fod yna sail resymol dros arestio, y maent yn agored i achos o garcharu ar gam. Felly nid oes y fath beth â'r pwer i gadw neb yn y ddalfa i'w holi. Meddai'r Arglwydd Ustus Lawton yn *Lemsatef* ym 1977:

> *"Rhaid deall yn glir nad oes gan naill ai swyddogion y doll dramor na swyddogion yr heddlu yr wŷ hawl i gadw rhywun yn y ddalfa i'r diben o'u cymell i'w cynorthwyo hwy gyda'u hymholiadau. Y mae swyddogion heddlu naill ai'n arestio am dramgwydd neu nid ydynt yn cadw yn y ddalfa o gwbl. Y mae'r gyfraith yn glir ... Nid oes mo'r fath dramgwydd â 'cynorthwyo'r heddlu gyda'u hymholiadau' (sic). Daeth yr ymadrodd hwn yn gyffredin yn bennaf oherwydd yr angen i'r wasg fod yn ofalus ynglŷn â disgrifio rhywun sydd wedi ei arestio ond heb ei gyhuddo'n ffurfiol. Os yw'r syniad yn lledaenu ymhlith naill ai swyddogion y doll neu swyddogion yr heddlu y gallant arestio pobl neu eu cadw yn y ddalfa i'r diben neilltuol hwn, yna gorau po gyntaf y cânt wared o'r syniad hwnnw".*

Dichon fod yr Arglwydd Lawton yn gywir o safbwynt y gyfraith, ond mae'r sefyllfa fel y mae hi yn ymddangos braidd yn fwy cymhleth, fel y dangosodd adroddiadau'r arolwg.

Arestiwyd y mwyafrif rhwng 4.30 a.m. a 6 a.m. fore Sul, Mawrth 30ain. Arestiwyd eraill wrth eu gwaith, ar y stryd, yng nghartrefi cyfeillion. Amrywiai nifer yr heddgeidwaid a oedd yn bresennol adeg arestio rhywun rhwng 4 a 11 (yn yr achos olaf, i arestio gŵr canol-oed a'i wraig yn eu cartref). Ar sail adroddiadau'r arolwg, yr ydym wedi sefydlu'r ffaith yr arestiwyd y rhan fwyaf o dan Ddeddf Difrod Troseddol 1971 "ar ddrwgdybiaeth o ddrwg-losgi" neu "ar ddrwgdybiaeth o ddifrod troseddol" neu "yng nghyswllt y tanau mewn tai haf." Eglurwyd yn fanwl wrth rai pobl:

> *"Dywedodd rhingyll wrthyf fy mod yn cael fy arestio ynglŷn â pheri gwerth £¾ milium o ddifrod i dai haf"*

neu

> *"Dywedwyd wrthyf fy mod yn frawychwr ac fy mod i wedi peri gwerth £250,000 o ddifrod i eiddo"*

neu

> *"Yn y man, pan gefais fy arestio (ar ôl tair awr o ohwilio ) dywedwyd wrthyf fod a wnelo'r mater â thai haf".*

Dywedwyd wrth eraill heb iddynt amgyffred arwyddocâd y datganiad:

> *"Crybwyllwyd arestio - ni roddwyd un rheswm hyd y gallaf gofio, yn eiriau, doeddwn i ddim yn deall beth oedd yn digwydd".*

neu

*"Y geiriau cyntaf a ynganwyd wrth i mi agor y drws am 5.30 a.m. oedd 'Yr ydym yn eich arestio. Yr ydym am chwilio'r tŷ'. Ni fedraf gofio a gyfeiriwyd at dramgwydd neilltuol".*

Y mae eraill yn bendant na roddwyd rhesymau iddynt:

*"Y cwbl y medrwn ei gael ganddynt oedd 'Mae gennym warant i chwilio, ac rydym yn edrych am unrhyw beth'".*

neu

*"Doeddwn i ddim yn deall ar ba sail yr oedd yr heddlu'n fy nghadw"*, meddai darlithydd, ac yr oedd yn amlwg o ddarllen ei ffurflen na ddywedasid wrtho. Arestiwyd cyfanswm o bedwar o'r bobl a ddanfonodd wybodaeth atom heb i'r heddlu gynnig yr un rheswm iddynt am hynny.

Cafodd unarddeg o bobl "eu gwahodd i gynorthwyo'r heddlu gyda'u hymholiadau", neu "eu gwahodd i gynorthwyo'r heddlu yn yr orsaf". Arestiwyd y rheini a wrthodai gyd-weithredu ar unwaith. O blith y pedwar a gytunodd:

*"Gofynnwyd i mi 'oes ots gennych ddod i'r swyddfa heddlu leol i ateb nifer o gwestiynau'. Cytunais gan feddwl gorau po gyntaf y caf hyn drosodd i mi gael mynd yn ôl i 'ngwely"* (dim ond am awr a 10 munud y buasai yn ei wely).

Mam yn dal i fwydo baban ar y fron oedd y trydydd person, ac aethpwyd â hi i'r swyddfa heddlu i'w holi, ynghyd â'i baban 4 mis oed. Bu yno am ddwy awr.

Yn ymarferol, ystyr "gwahoddiad" yw math o garchariad gwirfoddol; unwaith y bydd dyn yn swyddfa'r heddlu, ychydig iawn o allu sydd gan yr unigolyn i ddewis ymadael â'r lle, er ei fod, yn ddamcaniaethol, yn rhydd i fynd. Pan ofynnodd y rheini a aeth o'u gwirfodd i'r orsaf gyda'r heddlu am gael mynd, gwrthodwyd caniatâd iddynt:

*"Dywedwyd wrthyf na chawn fynd adref nes eu bod wedi eu bodloni eu hunain ynglŷn â'm alibi".* (Dau o'r rhai a ddrwgdybid).

neu

*"Gofynnais sawl gwaith am ba hyd y byddwn yno. Yr unig ateb a gefais oedd fod yr Arolygydd yn 'dod i mewn' i ofyn nifer o gwestiynau i mi".*

Bwydodd y fam ei phlentyn ar y fron tra'r oedd hi yn swyddfa'r heddlu, a theimlai y gallai anghysur yr heddlu ynghyd â mynych alwadau ffôn ei chyfreithiwr i swyddfa'r heddlu fod wedi prysuro ei hymadawiad (cafodd fynd adref ar ôl dwy awr, cyfnod llawer byrrach nag yn achos neb o'r bobl eraill y clywsom ganddynt).

Y mae'r dull o arestio yn codi rhai cwestiynau hefyd: aethpwyd ag un o'r drwgdybiedig i'r ddalfa pan oedd allan yn siopa gyda'i fab 9 mlwydd oed; aethpwyd



ag yntau i'r orsaf gyda'i dad ac yna ei hebrwng adref gan yr heddlu. Holwyd rhai aelodau o deuluoedd yn drylwyr, a'u gwaradwyddo mewn rhai achosion gan natur y cwestiynau, tra cafodd teuluoedd eraill "eu trin fel na baent yno" yn ystod y chwilio a'r arestio.

Y mae'r cyfnod y cedwid pobl yn y ddalfa yn codi pwynt arall. Dywed Deddf y Llysoedd Ynadon 1952 Adran 38 pan eir ag oedolyn i'r ddalfa am dramgwydd difrifol heb warant, a'i gadw yn y ddalfa, y dylid dod ag ef/hi ger bron llys ynadon cyn gynted ag sydd yn ymarferol. Heb law am y broses o holi yr ymdrinir â hi yn yr adran ar holi isod, beth ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwnnw yn y ddalfa?

Meddai un a gadwyd yn y ddalfa am dridiau ac un awr ar ddeg:

*"Aethpwyd â mi i swyddfa heddlu X yn gyntaf, yna i swyddfa heddlu Y erbyn tua 5 p.m. brynhawn Sul. Yr oeddwn yng ngorsaf heddlu Y tan fore Mawrth pan aethpwyd â mi i orsaf heddlu X. Oddi yno, yr un diwrnod, aethpwyd â mi i Z. Fe'm gollyngwyd ar fechnïaeth o orsaf heddlu Z ar ôl cinio ddydd Mercher. Bu'r heddlu a aethai â mi i fyny i Z garediced ag aros amdanaf pan glywsant fod posibilrwydd y cawn fy rhyddhau. A daethant hwythau â mi yn ôl i Y".*

Un arall o'r drwgdybiedig a gadwyd am ddiwrnod a deunaw awr:

*"Fy nghymryd i swyddfa heddlu X ac yna ymlaen i swyddfa heddlu Y. Dweud wrthyf 'fe'ch cymerir oddi yma pan fyddant yn barod' a'm dwyn yn ôl i orsaf heddlu Y yn y man".*

Aethpwyd ag un arall i dair gorsaf heddlu yn ystod y diwrnod a phymtheg awr y bu yn y ddalfa. Gofynnodd cyfaill i ble y byddent yn mynd ag ef a dywedodd un o'r heddgeidwaid wrtho am feindio ei fusnes - hwyrach na wyddai'r heddlu eu hunain!

Yn ôl un o'r drwgdybiedig a arestiwyd ond a ryddhawyd yn ddiweddarach ar ôl diwrnod a phedair awr ar ddeg yn y ddalfa:

*"Dywedwyd wrthyf fore Llun yng ngorsaf heddlu X y cawn fy rhyddhau ar ôl cinio. Yna dywedwyd wrthyf na chawn fynd tan tua 5.00 p.m. Bryd hynny aeth dau heddwas â mi i gar ac i ffordd â ni. Dywedodd y naill y gwyddai'r ffordd i garchar Y. Aethpwyd â mi i orsaf heddlu Z a'm cloi i mewn am ddeng munud. Yna fe'm cymerwyd yn ôl i X. Cefais fy nghloi mewn ystafell (nid cell) a dywedwyd wrthyf y cawn gyfweliad pellach. Beth amser yn ddiweddarach agorwyd y drws, a rhoddwyd fy arian ac ati yn ôl i mi a dywedwyd wrthyf am fynd adref".*

Cynigiwyd un eglurhad posibl ar y fath deithio gorffwyl gan y drwgdybiedig ei hun:

*"Wedi i mi gyrraedd gorsaf heddlu X dywedwyd wrthyf o'r tu allan i'm cell fod y gŵr hyn yn frawychwyr caled ac mae felly y caent eu trin".*

## CHWILIO A MYND AG EIDDO

Nid oes gan yr heddlu mo'r hawl i chwilio oni allant gyfiawnhau myned ohonynt i mewn i dai sy'n eiddo pobl eraill drwy awdurdod cyfreithiol. Yn Operation Tân yr oedd hyn yn golygu cael gafael ar y gwarantau chwilio priodol. Y mae hyd a lled pwerau'r heddlu i fyned i mewn, i chwilio a mynd ag eiddo ymhell o fod yn glir, fel y dengys y datganiadau yn yr arolwg. Diau na ŵyr llawer o heddgeidwaid hyd a lled y gyfraith mewn perthynas â chwilio, a phur anhebyg yw hi y gŵyr y dinesydd a yw hi'n gyfreithiol i chwilio ai peidio. Y mae'r ansicrwydd hwn yn debyg o weithredu o blaid yr heddlu, sydd naill ai yn elwa arno ar y pryd, gan na ŵyr pobl a oes ganddynt hawl i wrthwynebu, neu sy'n trefnu eu gweithgareddau er sicrhau'r cydweithrediad helaethaf posibl (h.y. cyrraedd gyda'r wawr, defnyddio rhwng 5 ac 11 heddwas ar bob cyrch).

Os daw'r heddlu wrth chwilio o hyd i rywbeth sydd yn amlwg heb ddim cysylltiad â diben y warant, y mae cyfraith achosion yn caniátau iddynt fynd â'r eitem(au) ymaith a'u cynnig yn y pen draw yn dystiolaeth ar gyfer cyhuddiadau eraill. Y mae achosion o'r fath yn ysgogi'r heddlu i chwilio adeiladau ar "dripiau pysgota" (cyhuddwyd dau ddyn o fod â channabis yn eu meddiant er mai chwilio mewn cysylltiad â ffrwydron yr oedd yr heddlu, wedi i fomiau gael eu gosod yn swyddfeydd y Ceidwadwyr yn Shotton a Chaerdydd: cafodd unei ddirwyo wedi hynny, a dywedwyd wrth y llall na fyddai cyhuddiad yn ei erbyn).

*"Aeth yr heddlu â'm teipiadur, fy llyfr nodiadau a phapurau arholiadau y byddai myfyrwyr yn eu sefyll yn yr haf".*

neu

*"Aethpwyd â nifer fawr o bethau: fy holl bapurau busnes, llawer o ffotograffau, canhwyllau, olew petrol (ar gyfer llif gadwyn), rholyn o dâp masgio, llyfrau, cyllell jyngl, fy holl lenyddiaeth Cofiwn ... esgidiau, esgidiau mawr, trowsusau ac ati a phasport ... Ni roddwyd derbyneb i mi am fy eiddo sydd, ag eithrio'r hyn oedd yn fy mhocedi ar y pryd, yn dal ganddynt hwy".*

neu

*"Gwrthododd fy mam ganiatáu iddynt chwilio'r car gan nad ydwyf fi'n gyrru car, ac fe'i cedwir yng ngarej y tŷ drws nesa".*



neu

*"Ni roddwyd derbyneb i mi er iddynt ddweud wrthyf y cawn un pan ofynnais; a chan na fedrwn wylio'r saith ohonynt, nid oes modd gwybod a aethpwyd ag unrhyw beth arall".*

neu

*"Aethant ymaith ag amlenni plaen a phai Tŷ'r Cyffredin heb eu defnyddio y credent (ar gam) ei bod yn bosib eu bod wedi eu dwyn, set brintio John Bull, unrhyw dameidiau o bapur ag enwau a chyfeiriadau arnynt, cartŵn ..."*

neu

*"Cymerwyd papurau Plaid Cymru, cyfeiriadau aelodau a chefnogwyr lleol; datganiadau a ffeithiau gwrth-niwcliar ynghyd â bathodynnau; manylion am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cofiwn, unrhyw bapur a oedd yn cynnwys cyfeiriad John Jenkins, ffurflenni aelodaeth; papurau ar ymgyrch y Bedwaredd Sianel".*

Ceir gwarantau oddi wrth Ynad Heddwch drwy gyflwyno gwybodaeth iddo, mewn ffurf safonol fel arfer. Ni raid i'r heddlu wneud cais i ynad y lleolir yr adeiladau o dan sylw o fewn cylch ei awdurdodaeth ef. Ni raid i'r ynad ffeilio'r wybodaeth yn y llys na chadw cofnod o'r gwarantau a ganiatawyd. Ni ŵyr yr ynad a wnaethpwyd ymchwiliad ai peidio, na p'run ai a oedd yn llwyddiannus. Ni ellir cadw cofnod o'r nifer o weithiau y caiff adeilad ei chwilio gan y gellir cael gwarantau gan nifer o ynadon gwahanol.

Dylai'r ynad sefydlu fod cyfiawnhad dros chwilio. Y mae angen hysbysiaeth ar lw, yn arddangos digon o dystiolaeth i sicrhau cyfarfod â'r safon a osodwyd. Y mae'n ddyletswydd ar yr ynad i weithredu'n farnwrol, a rhaid iddo bwyso a mesur y mater i benderfynu a ddangoswyd achos rhesymol. Mesur diogelwch yw'r broses hon, yn ddamcaniaethol: ystyrir yr angen am warant chwilio ddwywaith, unwaith gan yr heddlu ac yna gan ynad. Ond byddai swyddogaeth yr ynadon i ddiogelu yn erbyn camddefnyddio pwerau gan yr heddlu yn fwy effeithiol pe baent yn fwy llym yn eu hystyriaeth o'r wybodaeth ger bron. Yn ymarferol, mae cysylltiad rhwng ynadon a swyddogion yr heddlu drwy eu gwaith yn y llys, ac fel arfer, ni fydd eu harchwiliad o gais am warant yn llawer mwy na sêl bendith otomatig i'r heddlu chwilio neu arestio.

O dan adran 6 (1) o'r Ddeddf Difrod Troseddol 1971 y mae gan Y.H. y pwer i gyhoeddi gwarant i chwilio adeilad sy'n perthyn i berson y credir fod ganddo/ganddi o dan ei r(h)eolaeth unryw beth y mae achos rhesymol dros feddwl y cafodd ei ddefnyddio, neu y bwriedir ei ddefnyddio, heb esgus cyfreithlon, i ddinistrio neu ddifrodi eiddo sy'n perthyn i rywun arall, neu i ddinistrio neu ddifrodi unrhyw eiddo mewn modd sydd yn debygol o beryglu bywyd rhywun arall. Y mae'r hawl a roddir i'r heddlu i ddwyn ymaith eiddo wedi ei

ei drafftio'n gaeth, gan gynnwys dim ond y gwrthrychau hynny y cred y cwnstabl sy'n chwilio eu bod wedi eu defnyddio, neu y bwriedir eu defnyddio, i ddinistrio neu niweidio eiddo yn yr amgylchiadau a waherddir yn yr adran. Y mae pob tramgwydd o dan y Ddeddf hon yn dramgwydd y gellir arestio dyn o'i herwydd. Pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng y darpariaethau hyn â realrwydd gweithgareddau'r heddlu?

*"Chwiliasant bopeth yn y tŷ, a Neuadd y Pentref hefyd - Llyfrgell y Pentref, pob ystafell yn y Neuadd, a daethant yn ôl liw dydd i chwilio diogell y Cyngor Cymuned".*

neu

*"Aethpwyd â dau deipiadur, tair coflen o bapurau newydd o leiaf, un poster, pabwyr lampau, tun o laddwr -chwyn, papur newydd doniol a roddwyd at ei gilydd gan fy merched ..."*

Y mae'r warant yn nodi y gellir mynd ymlaen â'r chwilio "drwy rym os oes rhaid" ond ni ddylid defnyddio mwy o rym nag sydd yn angenrheidiol. Yn wir, gofynnodd un o'r drwgdybiedig i'r heddlu brofi pwy oeddynt, gan alw arnynt drwy ei ffenestr flaen, ond yn lle rhoi'r manylion, y cwbl wnaeth yr heddlu oedd torri'r drws i lawr; cafodd eraill estyll wedi eu rhwygo o'r lloriau a lle tân wedi ei dynnu allan, ond ni arhosodd neb i lanhau'r parddu; torrwyd tri chlo mewn un tŷ cyn i'r drwgdybiedig gael eu harestio yn y gwely. Gwelodd un arall o'r drwgdybiedig drosol ym mhoced heddgeidwad pan fflachiwyd lamp heddlu o gwmpas ei ystafell wely.

Yn ôl un arall a ddrwgdybiwyd:
*"Dywedodd un ohonynt ei bod hi'n bosibl chwilio'r tŷ yn fwy manwl drwy godi estyll y llawr ac arestio fy ngwraig"*

neu

*"Pan aeth fy mab i'r tŷ yn X gwelodd fod drws cefn y tŷ yr oeddwn i wedi ei gloi cyn mynd gyda'r heddlu i'r orsaf wedi cael ei dorri ar agor a bod dau heddwas yn y tŷ yn chwilio. Gofynnodd iddynt am warant. Yr ateb a gafodd, fodd bynnag, oedd ei bod yn yr orsaf os oedd ef am ei gweld".*

neu

*"Pan ddychwelais adre o'r gwaith yr oedd tri heddwas mewn dillad cyffredin yn y garej .... Edrychasant ar gerbyd fy mab .... aethpwyd ag un o'r teiars cefn ymaith".*

Yn yr achos olaf, y gŵr a gawsai ei arestio, nid y mab!

Nid yw'r cwestiwn o heddgeidwaid yn aros mewn tŷ neu yn mynd yn ôl i mewn iddo ar ôl i'r drwgdybiedig gael eu harestio a'u dwyn ymaith yn fater yr ymdrinir ag ef yn yr un o'r llyfrau cyfraith safonol, ac eto cawsom glywed am sawl enghraifft o hynny; dyfynnir un ohonynt yma:



*"Dedlais wedi i mi gael fy nwyn ymaith y gadawyd cwnstabl mewn gwisg swyddogol yn fy nhŷ ar ei ben ei hun. Atebodd alwad ffôn gan fy merch, gan ddweud mai ef oedd y lletywr a bod fy ngŵr a minnau wedi mynd allan yn gynnar a heb gyrraedd yn ôl eto ... Yr oedd yn y tŷ pan alwodd fy mrawd hefyd - ni chynigiodd y cwnstabl yr un eglurhad ac yr oedd yn defnyddio'r ffôn ar y pryd. Gŵyr fy mrawd ein bod yn darparu gwely a brecwast a chredai' n wirioneddol mai lletywr ydoedd ... Tra'r oeddynt yn chwilio fy nghartref, defnyddiodd un o'r heddgeidwaid fy ffôn heb ganiatâd i ffonio'i wraig i roi gwybod iddi y byddai'n hwyr ac i holi am ei deulu. Dylid egluro hyn".*

Yn olaf, y mae gan yr heddlu yr hawl i gadw eiddo'r rheini a ryddheir ar fechniaeth o dan ddeddfwriaeth benodol (ond dim ond o fewn y darpariaethau cyfyngedig a nodwyd uchod). Byddai hynny'n egluro pam na ddychwelwyd eu heiddo i rai pobl hyd yn hyn, gan na ddaeth cyfnod eu mechnïaeth i ben eto. Fodd bynnag, ni chyhuddwyd y rhan fwyaf o'r rheini a arestiwyd ac nid ydynt ar fechnïaeth, ac ni allwn ond tybio mai'r rheswm dros gadw cymaint o eiddo personol y tu hwnt i unrhyw gyfnod cyfreithlon yw eu bod yn cael eu harchwilio'n fanwl o safbwynt hel gwybodaeth (ymddengys nad ydyw Compiwtar Cenedlaethol yr heddlu bob amser yn gweithio mor gyflym ag yr hysbysebir ei fod!).

Ar yr 28ain Ebrill 1980 gofynnodd Dafydd Wigley gwestiwn seneddol ynglŷn â'r rheidrwydd sydd ar yr heddlu i roi derbynebau ar gyfer pob eitem o eiddo a gymerir ganddynt i'w harchwilio mewn perthynas â thramgwyddau a ddrwgdybir. Ateb Leon Brittan A.S., llefarydd y Swyddfa Gartref, yw y bydd yr heddlu fel arfer yn rhoi derbyneb am eiddo a ddygwyd ymaith os gofynnir am un. Yr oedd ei adran ef newydd adolygu'r mater hwn gan ymgynghori gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr heddlu, ac nis darbwyllwyd o'r ffaith fod angen arweiniad ychwanegol. Fodd bynnag, cafodd unigolion ei bod hi'n amhosib cadw llygad ar yr heddlu gan fod nifer o swyddogion yn chwilio mewn gwahanol ystafelloedd, neu oherwydd iddynt ddal i chwilio tai wedi i'r drwgdybiedig gael eu dwyn ymaith i swyddfa'r heddlu. O ganlyniad, ni fedrai pobl sefydlu'n iawn beth yn union a ddygwyd ymaith. Ni chafwyd ateb boddhaol ar y mater hwn, gan na roddwyd derbynebau, ond am rai eithriadau, hyd yn oed pan ofynnwyd amdanynt.

*"Ni roddwyd derbynebau am unrhyw ddewnydd a ddygwyd ymaith er gofyn droeon amdanynt. Yr wyf oddi ar hynny wedi ceisio cael peth o'r eiddo hyn yn ôl, ond heb ddim llwyddiant".*

Y mae enghreifftiau eraill yn rhy niferus i'w dyfynnu.

RHEOLAU'R BARNWYR

Cyfarwyddir yr heddlu ynglŷn ag arfer eu pwerau i gadw pobl yn y ddalfa a'u holi, a sut y dylid trin pobl o dan ddrwgdybiaeth, mewn dogfen o enw Rheolau'r Barnwyr a luniwyd yn wreiddiol yn 1912; y tro diwethaf yr adolygwyd y rheolau hyn yn llawn oedd ym 1964 (cylchlythyr y Swyddfa Gartref Rhif 89/1978 HMSO). Dywed y Rheolau wrth yr heddlu sut mae holi person a ddrwgdybir, y modd y dylid rhybuddio'r drwgdybiedig cyn ei holi a chyn ei gyhuddo, a sut mae cymryd datganiad. Y mae'r Cyfarwyddiadau Gweinyddol a gyhoeddwyd gyda'r Rheolau yn ymdrin â chofnodi manylion yr holi, "cysur a lluniaeth" i'r drwgdybiedig a chyfleusterau ar gyfer yr amddiffyniad. Rhydd yr eitem olaf y geiriau y dylid eu defnyddio wrth hysbysu'r drwgdybiedig o'i hawliau cyfreithiol ac ar ba amodau y caiff ymgynghori â chyfreithiwr. Nid yw'r Rheolau'n ystatudol. Mewn geiriau eraill, ni pherthyn iddynt rym y gyfraith.

a. Cysur a Lluniaeth

Cadwyd y rhan fwyaf o'r drwgdybiedigion mewn celloedd tan glo ag eithrio am gyfnodau o holi a theithio o'r naill orsaf heddlu i'r llall. Rhoddwyd matres i rai, meinciau pren oedd gan eraill i gysgu arnynt. Y dillad gwely arferol a ddarparwyd oedd dwy flanced amrywiol eu cyflwr a'u glendid. Cafodd rhai o'r drwgdybiedigion brydau bwyd rheolaidd, dywed eraill iddynt dderbyn dau bryd mewn deuddydd. Gwrthodwyd diod/bwyd o'r drwgdybiedigion am gyfnodau maith, ac ni chafodd sawl charcharor a gadwyd yn y ddalfa dros nos ddiod o gwbl. Yr oedd goleuadau'r celloedd ynghynn 24 awr y dydd, ond ni ddarparwyd cyfleusterau darllen neu ysgrifennu (gydag un eithriad pan ganiatawyd i un o'r drwgdybiedigion ysgrifennu llythyr at ei wraig ar ei drydydd diwrnod yn y ddalfa, y gallodd ei roi iddi yn bersonol pan gafodd ei ryddhau drannoeth). Ceid mynd i'r tŷ bach o dan arolygaeth yr heddlu. Dim ond pedwar carcharor a gafodd driniaeth fwy dynol, h.y. cael aspirin ar ôl gofyn amdano, cael diodydd mynych, eu cadw mewn ystafelloedd heb glo neu gael cwmni perthynas am beth o'r amser yn y ddalfa.

b. Hawl i gysylltu â chyfreithiwr/perthynas/cyfaill

Yn ddamcaniaethol, y mae gan berson a ddrwgdybir hawl bob amser i ffonio rhywun i ddweud ei fod wedi ei arestio. Yn ôl Rheolau'r Barnwyr a'r Cyfarwyddiadau Gweinyddol dylid hysbysu pawb sydd yn y ddalfa o'i hawl i gysylltu ar y ffôn â chyfreithiwr neu gyfaill a bwrw na fydd y ffaith iddo wneud hynny'n arafu neu lesteirio yn afresymol y broses o ymholi neu weinyddu cyfiawnder. Gan nad oes rym cyfreithiol i'r rheolau, fe'u hanwybyddir yn fynych heb nemor ddim canlyniadau i'r heddlu wedi hynny. Er enghraifft, cafodd yr Anrhyd. Syr Henry Fisher nad oedd



*"bodolaeth Cyfarwyddiad Gweinyddol 7 yn hysbys i gyfreithwyr a swyddogion heddlu hŷn a roddodd dystiolaeth ger fy mron. Ni thelir sylw iddo yn Ardal yr Heddlu Metropolitaidd". (Report of the Enquiry into the Death of Maxwell Confait, HMSO, 1977).*

Yn fuan wedi cyhoeddi Adroddiad Fisher ailargraffwyd Rheolau'r Barnwyr a rhoddwyd copiau i bob aelod gweithredol o'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Yn gynharach ym 1972 darganfu Michael Zander mewn arolwg yn Llundain y gwaherddid 74% o'r rheini a ofynnai am gyfreithiwr rhag cael gweld un. Y mae hyn yn awgrymu fod penderfyniad yr heddlu i beidio â chaniatau cysylltu â chyfreithiwr yn gweithredu fel y rheol yn hytrach na'r eithriad y dichon y byddai'r gair '*proviso*' yn ei awgrymu.

Rhoddwyd grym cyfreithiol i ddarpariaeth ddiweddarach i roi'r hawl i ddyn yn y ddalfa gysylltu ag un person y tu allan i swyddfa'r heddlu yn Neddf Cyfraith Trosedd au 1977, adran 62. Y mae adran 62 yn ddarostyngedig i brofiso cyffelyb i hwnnw yn Rheolau'r Barnwyr gan ei fod yn cynnwys darpariaeth eang sydd yn caniatáu i'r heddlu yr hawl i wrthod i garcharor gysylltu â chyfreithiwr; yn eilbeth, nid ydyn'n orfodol gan nad oes cyfeiriad at gosb am anufuddhau o fewn y ddeddfwriaeth ei hun. Meddai'r Arglwydd Ustus Lawton yn *Lemsatef* ym 1977:

*"Os ydyw swyddogion sydd yn arestio pobl neu'n eu cadw yn y ddalfa yn mynd i wrthod caniatáu i gyfreithiwr gynghori dyn a arestiwyd neu sydd yn y ddalfa, yna ni thâl hi ddim iddynt wag-lefaru geiriau Rheolau'r Barnwyr: rhaid iddynt fod yn barod, os gofynnir iddynt, i gyfiawnhau yr hyn y maent yn ei wneud".*

Er gwaethaf datganiad Lawton, ni ddywedwyd wrth y drwgdybiedig (gyda dau eithriad) paham y gwrthodwyd caniatáu iddynt weld eu cyfreithwyr. Os arestir rhywun a ddrwgdybir, y mae'r gyfraith yn mynnu y dylid rhoi rheswm dros hynny. Os amddifadir person a arestiwyd o un o'i hawliau, megis yr hawl i hysbysu cyfaill, perthynas neu gyfreithiwr o'r lle y mae, yna unwaith eto dylid rhoi'r rheswm dros wrthod caniatáu hyn er nad oes reidrwydd ar yr heddlu i wneud hynny o dan y drefn bresennol.

Dywedodd un wraig a arestiwyd am 5.45 a.m. fore Sul a'i chadw am 29 awr:

*"Cefais ffonio cyfeillion i mi a oedd yn gofalu am y plant tua 11.30 y nos. Cawsom fynd i weld y plant, yng ngofal cyfeillion, cyn mynd i swyddfa'r heddlu".*

Dywedodd un arall o'r drwgdybiedigion a gadwyd am 36 awr:

*"Cefais ffonio fy nghyn-wraig ynglŷn â iechyd fy mab. Caniatawyd hynny yn swyddfa'r heddlu".*

Dywedodd un o'r drwgdybiedigion a gadwyd am ddeuddeng awr:

*"Dywedodd fy mam ei bod hi'n dod gyda mi. Nid oedd gwrthwynebiad i hynny. Arhosodd fy mam yn yr un ystafell, heb i neb wrthwynebu ... Cafodd fy mam gofnodi fy natganiad mewn llaw-fer".*

Yr oedd gwrthod caniátad i gysylltu â neb, neu oedi maith yn beth llawer mwy cyffredin:

*"Gwneuthum geisiadau di-rif i ffonio adref yn ystod y dydd (Sul) ond gwrthodwyd caniatâd. Ar ôl i mi erfyn yn daer, cefais ffonio tua 10 p.m. yng ngorsaf X gyda swyddog yn gwrando ar y sgwrs.* (Un o'r drwgdybiedigion a gadwyd am 39 awr).

neu

*"Na, dywedwyd wrthyf 'Dim siawns'".*

neu

*"Gofynais am gael cysylltu â'm gwraig, ni chefais wneud".*

neu

*"Gwneuthum lawer cais fore Sul yn yr orsaf yn X (Dim galwadau) Ni roddwyd rheswm".*

neu

*"Yn swyddfa'r heddlu ... gofynais sawl gwaith i nifer o wahanol aelodau o'r heddlu. Dywedwyd wrthyf gan un aelod o'r heddlu mai brawychwr oeddwn ac nad oedd gennyf felly ddim hawliau. Dywedodd y gweddill yr edrychent mewn i'r peth, ond ni chysylltwyd â neb".*
(Un a gadwyd am 52 awr).

neu

*"Dywedodd swyddog hŷn wrthyf nad oedd gennyf ddim hawliau ac fy mod, o'u safbwynt hwy, yn euog nes fy mhrofi'n ddi-euog".*
(Un a gadwyd am 39 awr).

Cododd anhawsterau hefyd wrth i berthnasau, cyfreithwyr, cyfeillion a/neu ASau geisio darganfod i ba le yr aethpwyd â'r drwgdybiedigion.

*"Ni chefais ddim gwybodaeth heb ffonio pwn swyddfa heddlu ynglŷn â pha le yr oedd fy ngŵr".*
(Un a gadwyd am 81 awr).

neu

*"Dywedwyd wrth fy mam nad oeddynt hwy wedi cofnodi'r ffaith i mi gael fy arestio. Ceisiodd fy mam gysylltu â'r heddlu i ddarganfod ble'r oeddwn i. Ni chafodd wybod, fodd bynnag, er ceisio dro ar ôl tro".*
(Un a gadwyd am 33 awr).

neu



*"Ni hysbyswyd y teulu a gwrthodwyd rhoi ateb iddynt drachefn a thrachefn wrth iddynt ffonio".*

neu

*"Gofynnais iddynt hysbysu fy mab-yng-nghyfraith. Dywedodd wedyn 'does dim sicrwydd y gwneir yr alwad' - ac nis gwnaethpwyd"*
(Un a gadwyd am 12 awr)

neu

*"Gwrthodwyd rhoi unrhyw wybodaeth i ni a gwadodd yr heddlu eu bod yn ei gadw. Aeth fy nghyfreithiwr ar drywydd hyn a dywedodd yr heddlu wrtho yntau na wyddent ddim byd amdano ac nad ydoedd yn y ddalfa. Yr unig ffordd y llwyddasom i sefydlu ym mha le yr oedd yn cael ei gadw oedd drwy hysbysu gorsaf heddlu X ei fod ar goll/wedi ei gipio. Dywedwyd wrthym wedyn ei fod yn y ddalfa yn Z".*
(Person drwgdybiedig a gadwyd am 38 awr. Y mae ei wraig yn dioddef o afiechyd difrifol ar y galon ac y mae'n fethiedig ond fe'i cadwyd hithau am 12 awr).

c. <u>Hawliau</u>

Yn ôl darpariaethau Pheolau'r Barnwyr dylid tynnu sylw'r unigolyn "at rybudd sy'n disgrifio yr hawliau a'r cyfleusterau sydd ar gael iddo, y dylid ei arddangos mewn man amlwg, ym mhob gorsaf heddlu".

*"Yn yr ystafell gadw, dangoswyd rhybudd ar y wal i mi, yn fy hysbysu o'm hawliau".*

neu *"Dywedais wrthynt fy mod yn ffonio fy nghyfreithiwr cyn i mi adael fy nghartref. Gwneuthum hynny a dywedais y byddai fy nghyfreithiwr yn fy ffonio yn swyddfa'r heddlu. Dywedasant fod hynny'n iawn".*

neu *"Dangoswyd rhybudd ar y wal i mi, ond ni chefais lawer o amser i'w ddarllen".*

neu *"Tra'r oeddwn yn y ddalfa, gwrthodwyd i mi'r hawl i gysylltu â chyfreithiwr, teulu neu gyfeillion, a dywedwyd wrthyf nad oedd gennyf ddim hawliau; ar un adeg, rhwygodd heddgeidwad damaid o bapur oedd yn dwyn enw a chyfeiriad fy nghyfreithiwr yn ddarnau o'm blaen".*

neu *"Ni ddywedwyd dim".*

neu *"Ni ddywedodd yr heddlu wrthyf beth oedd fy hawliau".*

neu *"Dywedodd (swyddog hŷn) wrthyf nad oedd gennyf hawliau, ac o'u safbwynt hwy, fy mod yn euog nes fy mhrofi'n ddieuog".*

neu

*"Dywedwyd wrthyf cyn mynd â mi i swyddfa'r heddlu i beidio â thalu dim sylw i erthyglau diweddar yn y wasg ynglŷn â throseddau yn erbyn hawliau pobl eraill a arestiwyd o'm blaen. Dywedwyd wrthyf y gellid fy arestio heb i'r heddlu hysbysu neb o bla le y'm cedwid, am gyhyd ag y mynnai'r heddlu".*

neu

*"Dywedwyd wrthyf yn X cyn gynted ag y cyrhaeddais yno nad oedd gennyf ddim hawliau. Fod ganddynt dystiolaeth bendant ac y cawn fy nghadw mewn cell am y 40 mlynedd nesaf".*

HOLI

Cadwyd y rhan fwyaf o'r drwgdybiedigion yn y ddalfa, chwiliwyd adeiladau a dygwyd eiddo ymaith o dan Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Y mae'r Ddeddf hon yn ymdrin â drwg-losgi, dinistrio neu ddifrodi eiddo, bygwth dinistrio neu ddifrodi eiddo, a meddiant eitemau gyda'r bwriad o ddinistrio neu ddifrodi eiddo. Rhaid i ni archwilio natur a chwmpas y cwestiynau a ofynnwyd gan yr heddlu o fewn fframwaith eu pwerau i arestio pobl a'u holi o dan y Ddeddf hon. A oeddynt yn ymholi i gyfres o faterion penodol: difrod troseddol, yn benodol, losgi ail gartrefi? Neu a oedd hon yn ymgyrch fwy cyffredinol ei natur? Ai bwriad y cwestiynau oedd casglu gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â gweithgareddau gwleidyddol pleidiau a mudiadau cyfreithlon yng Nghymru tan gochl ymholi i droseddau ? Gofynnwyd i bawb a ymatebodd i'n harolwg am wybodaeth wleidyddol, e.e.

*"Gofynnwyd i mi ynglŷn â rhaglen Nationwide ar ail gartrefi, ynglŷn â noson gymdeithasol Y Faner Goch a'r cyfweliad mewn siliwet".*

neu

*"Sut y byddwn i'n fy nisgrifio fy hun yn wleidyddol. A oeddwn yn cytuno â pholisiau'r blaid Doriaidd, oeddwn i'n credu y byddai hi'n beth "neis" eu chwythu hwy (y Toriaid) i fyny. Faint o anarchwyr oeddwn i'n eu hadnabod, ac a rown i eu henwau iddo ef".*

neu

*"Fe'm holwyd yn gyson ynglŷn â Cofiwn, ei aelodau a'i weithgareddau".*

neu

*"Dywedodd y rhan fwyaf o'r aelodau yr ydym wedi siarad â hwy oddi ar hynny fod yr heddlu'n awgrymu fod a wnelo Cofiwn â'r llosgi a'u bod hyd yn oed wedi awgrymu mai ffrynt oedd Cofiwn ar gyfer mudiad brawychol. Dywedwyd wrth rai aelodau y byddai'r weithred hon gan yr heddlu yn rhoi terfyn ar Cofiwn am byth ... Y mae Cofiwn bellach mewn sefyllfa lle gellid dweud ei fod wedi ei fygu fwy neu lai. Y mae hyn oll yn fygnes trist iawn i Cofiwn, i Gymru ac i ddemocratiaeth".*



neu

*"Fe'm holwyd ynglŷn â'r Faner Goch, Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru ... MAC, ymgyrch fomio'r 1960au ... Ni ofynnwyd i mi ynglŷn â'r un ymosodiad penodol ar dŷ haf".*

neu

*"Gofynnwyd imi i ddisgrifio fy holl symudiadau y diwrnod a'r noson flaenorol, ac am enwau pawb y bûm gyda hwy. Gofynnwyd i mi enwi pobl mewn ffotograffau y daethant o hyd iddynt yn fy fflat. Gofynnwyd i mi a oeddwn yn medru'r Gymraeg/yn adnabod Cymry Cymraeg. Yr oedd ganddynt ddiddordeb neilltuol yn y mudiadau yr wyf yn perthyn iddynt (gwybodaeth a gasglwyd o'm dyddiadur ac o bapurau yn fy fflat) a gofynnwyd cryn dipyn i mi ynglŷn ag aelodaeth/ trefniadaeth/amcanion/cynlluniau/gwleidyddiaeth y mudiad/ aelodau ac ati. Fe'm holwyd yn helaeth (drosodd a throsodd, gan wahanol heddgeidwaid) ynglŷn â'm gwleidyddiaeth/ athroniaeth, yn enwedig tuag at y 'Wladwriaeth' h.y. pa mor bell y byddech chi'n fodlon mynd i wrthwynebu'r Wladwriaeth ac ati".*
(anarchydd drwgdybiedig)

neu

*"Gofynnwyd i mi a oeddwn yn adnabod X ac Y? A oeddwn yn meddwl mai hwy oedd wrthi'n llosgi? Beth oedd fy nheimladau ynglŷn â'r tan cyntaf? Oeddwn i wrth fy modd? Oedd hi'n bryd i bobl fel Wigley a D. E. Thomas i gondemnio'n gryfach? Onid yw hi'n mynd fel Iwerddon yma?*

neu

*"Nid enwais neb ond y bobl a welswn nos Iau. Gofynnwyd i mi beth oedd fy marn ynglŷn â'r ymgyrch losgi tai haf. A oeddwn i wedi digio wrth y Toriaid am gau gweithfeydd dur yng Nghymru? A oeddwn yn aelod o Gymdeithas yr Iaith? A oeddwn i yn y Key Club noson recordio rhaglen Nationwide?*

neu

*"Gofynnwyd i mi beth a drafodwyd mewn gwahanol gyfarfodydd o Adfer a Cofiwn".*

neu

*"Enwau aelodau Cofiwn, yn enwedig. Pa bleidiau neu fudiadau gwleidyddol yr oeddwn yn perthyn iddynt hefyd. Pryd oedd y tro diwethaf i mi yeld X. Pam yr oeddwn i wedi ysgrifennu at y Times ynglŷn â llythyr Keith Best parthed X. Paham yr oedd gennyf goflen o doriadau o'r wasg ynglŷn â'r llosgi".*
(Keith Best yw AS Toriaidd Ynys Môn).

neu

*"Gofynnwyd i mi am enwau a chyfeiriadau anarchwyr neu genedlaetholwyr Cymreig. Gofynnwyd i mi ynglŷn ag X hefyd".*

neu

*"Gofynnwyd i mi lle yn union y bum rhwng 7.00 a.m. ddydd Iau a 9.00 ddydd Gwener ... pa mor dda yr oeddwn yn adnabod W, X, Y a Z (aelodau o fudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru).*

*Pa bryd y gwelswn hwy ddiwethaf. Beth yw fy marn bersonol i am y bobl hyn. Drwy gydol fy 4 awr a chwarter cawn yr argraff mai'r unig reswm dros fy nghadw oedd bod W wedi dod i'r unig gyfarfod o Fudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru y bûm ynddo, a'i fod wedi galw heibio'r tŷ yn ddiweddar i son am ffurfio cangen leol o Cofiwn".*

neu

*"Ni ofynnwyd i mi ynglŷn â'm symudiadau, ond yr oedd ganddynt ddiddordeb yn oeddwn yn ei adnabod. Ni holwyd llawer arnaf o gwbl. Fy holwr, X, oedd yn siarad y rhan fwyaf o'r amser a phwrpas hynny oedd fy nychryn."*

Adroddiad gan ŵr a gwraig nas harestiwyd ond a holwyd ddwywaith gartref a phedair gwaith wrth atalfeydd ar y ffordd.

*"Symudiadau - gofynnwyd i mi yn ystod yr ymweliad cyntaf ym mha le y buaswn ar adegau penodol... gofynnwyd i mi ar Fawrth 5ed a oeddwn yn adnabod unrhywun yr oedd a wnelont â llosgi tai haf, a hefyd a oeddwn yn dal i fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith. Gofynnwyd i mi hefyd a fyddwn yn fodlon enwi pobl wrth yr heddlu pe clywm son am rywun ... ynglŷn â'n hagwedd tuag at y llosgi ... gofynnwyd i'm gwraig paham yr aethai i'r Iwerddon adeg y gêm rygbi Ryngwladol".*

Carem bwysleisio mai dim ond ENGHRAIFFT o'r hyn a dderbyniwyd yw'r datganiadau hyn. Dywedodd yr unigolyn a enwyd amlaf gan yr heddlu yn ystod cyfweliadau:

*"Gofynnodd yr heddlu gwestiynau manwl ynglŷn â'r HOLL bynciau uchod (symudiadau/enwau/mudiadau) gan dalu sylw arbennig i Cofiwn, y mudiad hanesyddol a diwylliannol. Dywedasant yn bendant yr ystyrid fod Cofiwn yn ffrynt ar gyfer rhywbeth mwy ysgeler".*

Holwyd 19 o aelodau Cofiwn, gan gynnwys 12 o'r swyddogion.

Rhydd yr adroddiadau uchod argraff o gydbwysedd yr holi: yn fynych, ceid cwestiynau am ddifrod troseddol i ddechrau, ond buan y dilynwyd y rhain gan sesiynau mwy manwl ar weithgareddau a chysylltiadau gwleidyddol. Yr enghreifftiau gorau y gallem ddod o hyd iddynt o holi manwl ynglŷn â difrod troseddol oedd:

*"Bu'n rhaid i mi roi adroddiad ynglŷn â'm symudiadau yn ystod y pedwar penwythnos diwethaf. Rhaid oedd i mi fanylu'n llawn ar fy symudiadau rhwng bore Iau (27ain Mawrth) a nos Sadwrn, h.y. yn ystod y cyfnod y gosodwyd bom y tu allan i swyddfa'r Ceidwadwyr yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i mi ynglŷn â dau berson yn unig, X a Y. Doedd dim angen (gofyn a oeddwn yn adnabod pobl neilltuol), gwyddent bopeth amdanaf. Gofynnwyd i mi hefyd beth oedd fy agwedd tuag at losgi tai haf".*

a

*"Gofynnwyd i mi ddweud ble'r oeddwn ar adeg llosgi pob tŷ haf a gofynnwyd i mi os oeddwn yn adnabod llu o wahanol bobl ..."*

(Gofynnwyd i'r drwgdybiedig ynglŷn â Phlaid Cymru, Adfer, Cymdeithas yr Iaith, M.A.C.,Cofiwn, Cadwyr Cymru a'r F.W.A. hefyd).



Heb law am gynnwys y cwestiynau a ofynnwyd, y mae'n bwysig sefydlu SUT y'u gofynnwyd hefyd. Beth oedd cyd-destun yr holi dros faes mor eang Yn sicr, dywedodd rhai pobl na theimlent fod yr amgylchiadau 'n rhai bygythio , a'u bod yn pryderu mwy am les perthnasau nag amdanynt hwy eu h nain. Ond teimlai llawer ohonyt tan fygythiad, a dyma enghraifft o amgylchiadau'r rheini.

*"Fe'm holwyd o dan bwysau mawr h.y. tri neu bedwar ohonynt yn lluchio cwestiynau ataf yr un pryd - a defnyddiwyd y dechneg galed a meddal. Gan i mi dderbyn rhywfaint o hyfforddiant yn y llwoedd arfog ynglŷn â gwrthsefyll holi (oherwydd fy swydd) medrwn adnabod y technegau".*

neu

*"Ymosodwyd yn eiriol arnaf eto ac ar un adeg fe'm trawyd deirgwaith yn fy mrest gan un swyddog a oedd yno".*

neu

*"Safodd swyddog hŷn yng ngorsaf X o'm blaen yn dal papur-newydd wedi ei blygu a oedd yn cynnwys adroddiad ar un agwedd ar yr ymgyrch. 'Brawychwr ydych chi',gwaeddodd arnaf gan roi un i mi ar draws fy wyneb gyda'r papur. Fe'm tarodd ar fy nghorff ddwywaith wedyn (ddim yn ddrwg iawn). Bwom yn gweiddi ar ein gilydd am ychydig funudau a minnau'n ateb ei sylwadau drwy ei alw'n'Nazi' ac yn 'llabwst'".*

(person drwgdybiedig canol oed a gadwyd am fwy na thridiau

neu

*"Aethant â'm sbectol. Yr oedd hynny'n flinder mawr i mi gan fy mod yn fyr fy ngolwg. Gwrthodasant ei rhoi yn ôl i mi yn ystod yr holi".*

neu

*"Dywedwyd pe cydweithredwn y gollyngid y cyhuddiad yn fy erbyn o fod â chyffuriau yn fy meddiant ... pan wrthodais enwi neb dywedwyd wrthyf pe llwyddent i ddod o hyd i'r gronyn lleiaf o dystiolaeth o gynllwynio y llament arnaf mor galed fel na fyddwn yn gwybod beth a'm tarodd, ac fe wnaent yn siŵr y teflid yr allwedd ymaith".*

neu

*"Collaswn fy ngwraig a'm tri mab - ysgariad oherwydd y pum mis a dreuliais yn y carchar yn disgwyl am yr achos (fe'i cafwyd yn ddieuog yn achos yr FWA yn Abertawe ym 1969). Gwyddai'r heddlu am fy nghelled a bwont yn ceisio gweithio ar fy meddwl, gan awgrymu y diguyddai'r un math o beth eto. Bygwth arestio fy ngwraig a gosod y plant bach yng ngofal yr awdurdod lleol. Fe'm bygythiwyd tua hanner ffordd drwy ddydd Llun pan aeth y ddau ditectydd o'm cellŷ wneud hyn- ni chefais wybod lle'r oedd y teulu tan tua 6 o'r gloch y nos a dywedodd yr heddlu na fedrent ddod o hyd iddynt. Gyda llaw, nid oedd y teulu wedi bod allan o'r tŷ o gwbl.*

(un a gadwyd am 37 awr).

neu

*"Llawer iawn o bwyso emosiynol ar hyd yr adeg. Doeddwn i ddim yn credu y gellid gwneud hyn i unrhywun. Y mae fy iechyd yn fregus ac ni wyddwn beth oedd yn digwydd i'm gŵr na'm teulu. Bu'n rhaid i'm meddyg roi lleddfwyr ar bresgripsiwn i mi ers hynny".*

neu

*"Ar un adeg, ymaflwyd ynof gerfydd fy nghrys a'm hysgwyd. Fe'm trawyd o dan fy ngen gan fraich heddwas ... yn gyn-heddwas fy hun, fe'm syfrdanwyd gan holl ddull yr heddlu o fynd ati. Yn ystod un o'r nifer o gyfweliadau, dywedwyd wrthyf fod fy ngwraig mewn cell ac y defnyddid yr un pwysau yn ei herbyn hi".*

neu

*"Gadawyd dau olau disglair ynghynn yn y gell ar hyd y nos er i mi ofyn iddynt eu diffodd gan na fedrwn gysgu".*

neu

*"Y cwbl a ofynnwyd i mi oedd ble y bum dros y 24 awr blaenorol. Dywedwyd wrthyf nad datganiad ffurfiol mo hyn. Tra'r oeddynt yn disgwyl i rywun i ddod i wylio drosof, bu fy holwyr, rhingyll ac arolygydd, yn fy holi ynglŷn â'm barn ar weithredoedd brawychol o'r fath wrth sgwrsio â mi".*

neu

*"Ail-fynegwyd y bygythiad i chwilio fy nhŷ yn drylwyr (h.y. yn fwy trylwyr) gan godi lloriau, tynnu'r papur oddiar y wal, arestio fy ngwraig, gyda'r holl beth i barhau drwy'r nos a'r oriau man. Nid oeddwn wedi bwyta er hanner dydd, ac yr wyf yn dioddef â'm stumog ers blynyddoedd. Yn naturiol, yr oeddwn yn bryderus ynglŷn ag effaith hyn ar fy swydd, fy gnhymdogion a'm gwaith cyhoeddus, heb son am fy nheulu".*

neu

*"Gofynnwyd i mi ynglŷn â'm symudiadau a symudiadau fy ngŵr ... Yr oeddynt yn creu amheuon yn fy meddwl ynglyn a'm gŵr drwy'r amser".*

Tybed beth oedd "amheuon" o'r fath, Cawn ryw awgrym gan wraig un arall o'r drwgdybiedigion.

*"Gofynnwyd iddi (fy ngwraig) ynglŷn â'm cyflwr meddyliol; os oeddwn wedi torri i lawr yn feddyliol erioed, os oeddwn yn fyrbwyll, os oeddwn yn 'crefu am fod yn enwog'. Gofynnwyd iddi hefyd pam y priodasom mor sydyn ag y gwnaethom - fe'n priodwyd o fewn byr amser ar ôl i ni gyfarfod. Gofynnwyd iddi os oedd yn fy adnabod 'go iawn' a thrwy gydol yr holi, teimlai mai buriad cwestiynau'r heddlu oedd tanseilio ei hyder hi ynof fel gŵr cyfrifol. Fe'i holwyd hefyd ynglŷn â'n bywyd rhywiol. Dywedwyd wrthi fod 'brawychwyr' i gyd yn byrdroedig yn rhywiol, ac oherwydd fy mod i'n frawychwr, yna rhaid fy mod innau'n byrdroedig. Gofynnwyd iddi pa ddulliau atal-cenhedlu y defnyddiem ac os oedd 'vibrators' o gumpas y tŷ, neu unrhyw lenyddiaeth bornograffaidd".*



(Holwyd gwraig y drwgdybiedig gartref, ni chafodd ei harestio).

Ychwanega'r un person:

*"Cynigiodd un o'r ditectyddion fy nghludo gartref a defnyddiodd y cyfle hwnnw i ofyn mwy o gwestiynau i mi, gan gynnwys cwestiynau ynglŷn â'm bywyd rhywiol fy hun ac eiddo rhai o'm cyfeillion".*

Un peth terfynol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr holi oedd mater pobl sy'n rhoi gwybodaeth am eraill i'r heddlu. Daeth y 'grass' a'r 'supergrass' yn amlwg yn ymgyrch yr heddlu i reoli a datrys troseddau difrifol'. Yn gyfnewid am ffafr, ceir drwgweithredwyr yn rhoi gwybodaeth i'r heddlu ynglŷn â drwgweithredwyr eraill, ond y mae gennym ninnau ddau adroddiad am unigolion y gofynnwyd iddynt i roi gwybodaeth i'r heddlu am bobl na chyhuddwyd o'r un drosedd, ac nad ydynt yn ymwybodol o'r posibilrwydd fod dinasyddion cyffredin sy'n gweithredu ar ran yr heddlu yn cadw gwyliadwraeth arnynt.

Yr oedd yr heddlu cudd yn weithredol adeg arwisgiad y tywysog Charles ym 1969. Rhoddir y manylion am ddau achos lle bu *agent provocateurs* wrthi yn *Planet (12)* gan Dr Phil Williams ym 1969. Hanes "Scot" a fu'n gweithredu yng ngylchoedd y myfyrwyr yn Aberystwyth yw'r ail o'r rhain. Y mae'r myfyriwr a gafodd wahoddiad i "weithio dros yr heddlu" yn ystod Operation Tân yn byw yn Aberystwyth hefyd.

*"Pan oeddwn ar fin ymadael â swyddfa'r heddlu dywedodd un o'r ditectyddion, 'Nid 'mod i am geisio'ch temtio chi neu unrhyw beth felly, ond ydych chi erioed wedi meddwl am weithio dros yr heddlu? ' Gofynnwyd i'm gwraig hefyd i 'gadw'ch llygaid yn agored o gumpas y dref a gadael i ni wybod beth sy'n digwydd'".*

a

*"Gofynnwyd i mi hefyd a fyddwn yn fodlon erwi pobl wrth yr heddlu os clywn ni son am unrhywun".*

Gall gweithio dros yr heddlu olygu dim byd mwy na sbecian ar gymdogion a phobl sy'n weithgar yn wleidyddol ond os gellir credu hanes, dichon fod ymhlygiadau mwy ysgeler i'r gwahoddiadau a estynnwyd gan yr heddlu.

DULLIAU ADNABOD

a. Olion bysedd a ffotograffau

Dim ond mewn un o ddwy ffordd y gellir sicrhau olion-bysedd a ffotograffau. Y naill ffordd yw gyda chaniatad yr unigolyn, a bwrw fod y caniatad hwnnw wedi ei roi'n wirfoddol a heb orfodaeth. Y llall yw drwy

awdurdod ystatudol. Ceir hwnnw yn Neddf Llysoedd Ynadom 1952, adran 40 (fel y'i diwygiwyd) lle dywedir y gellir, gydag awdurdod y Llys Ynadon, ar gais Arolygydd neu swyddog o safle uwch na hynny, orchymyn i berson dros 14 oedd sydd yn y ddalfa ac wedi ei gyhuddo i roi ei olion-bysedd a/neu gael llun wedi ei dynnu ohono. Nid oes gan yr heddlu bwer i orfodi unigolion i roi deunydd adnabod iddynt dim ond er ehangu eu stor o wybodaeth. (Y Ddeddf Atal Brawychaeth yw'r unig eithriad i'r rheol hon, ond nid yw honno'n berthnasol i'r tri achos yr hysbyswyd ni ohonynt).

b. Printiau Llais

Yn fras, dibynna technegau lleisbrint ar broses o gymharu patrymau ac ar y ddamcaniaeth na fydd lleferydd dyn yn amrywio. Y mae hyn yn rhagdybio fod gan bob unigolyn batrwm lleferydd unigryw. Daeth yr Acoustical Society of America i'r casgliad, fodd bynnag, nad yw'r canlyniadau sydd ar gael yn ddigonol er profi y gellir dibynnu ar y broses o adnabod lleisiau drwy sbectogramau. Er bod y llysoedd yn dal i wrthod derbyn canlyniadau'r dull hwn fel tystiolaeth, y mae'r heddlu fel pe baent yn ei gael yn ddefnyddiol o safbwynt darganfod troseddwyr sydd yn rhoi negeseuon dros y ffôn.

Crybwyllwyd tair enghraifft o ddefnyddio dulliau adnabod corfforol yn yr arolwg; ni chyhuddwyd yr un o'r bobl dan sylw o dramgwydd troseddol yn ystod yr ymgyrch hon gan yr heddlu:

*"Dywedwyd wrthyf gan yr heddlu beth oedd fy hawliau ac fe'm gorfodwyd i roi fy olion-bysedd a recordiad o'm llais er i mi brotestio. Wedi i mi eu rhoi, cefais fod gennyf yr hawl i wrthod".*

neu

*"Cymerwyd fy olion bysedd a thapiwyd fy llais wrth i mi ddarllen neges fygythiol. Gofynnwyd i mi ysgrifennu neges fygythiol hefyd yn ymwneud â'r ddyfais yn X."*

neu *"Cymerwyd fy olion bysedd ac y maent yn dal gan yr heddlu. Rhydd ymgyrch arall fel hon gan ffntai'r wasg y cyfle i'r heddlu i gymryd olion-bysedd unrhywun nad yw'n credu yn athroniaeth y Toriaid".*

Cawsom wybod am un enghraifft bellach o roddi llwch ar gar un o'r drwgdybiedigion er ceisio sicrhau olion-bysedd.



MECHNIAETH

Y mae gan yr heddlu'r gallu i ryddhau ar fechnïaeth rywun a gymerwyd i'r ddalfa heb warant am dramgwydd troseddol. A siarad yn fras, gellir rhannu'r pŵerau hyn yn ddau ddosbarth: (i) pwer i fechnio rhywun i ymddangos ger bron yr ynadon; a (ii) pwer i fechnio rhywun i ymddangos yn swyddfa'r heddlu. Yn yr ail achos, er mai pwrpas adran 38 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 yw ei gwneud hi'n bosibl rhyddhau' r person a arestiwyd tra bydd yr heddlu'n cwblhau eu hymholiadau ni ddylid rhagdybio fod yma fwriad i ymestyn pwerau'r heddlu mewn unrhyw fodd. Yn yr achos hwn eto, ni fedr yr heddlu weithredu oddieithr ar sail achos rhesymol yn ôl diffiniad y gyfraith o hynny.

Yn ystod Operation Tan rhoddwyd mechniaeth gan yr heddlu mewn 13 o achosion, hyd y gwyddom ni. Cawsom wybod i'r heddlu hysbysu pedwar o'r drwgdybiedigion na fyddai angen iddynt ddychwelyd i swyddfa'r heddlu i ateb i'w mechniaeth, ac mewn achos arall rhoed y gorau i gyhuddiad o feddiannu cyffuriau nad oedd a wnelo ar warant chwilio am ffrwydron. Ceir trafodaeth ar fater mechniaeth a hawliau'r heddlu i gadw eiddo'r rheini a ddrwgdybir ar ddiwedd ein hadran ar chwilio a mynd ag eiddo ymaith.

CWYNO AM YR HEDDLU

A ydyw'r drefn ar gyfer trafod cwynion yn erbyn yr heddlu yn deg a chyfiawn o safbwynt yr heddlu a'r cyhoedd? Yn sicr y mae'r drefn sydd yn ymgorffori mesurau diogelu yn ôl y drefn briodol o safbwynt yr heddwas y gwnaethpwyd y gwyn yn ei erbyn, a gaiff weld datganiad yr achwynydd a chael cyfle i ymateb. Beth a ddisgwylir gan yr achwynydd? Rhaid i'r unigolyn ddod o hyd i wybodaeth gywir am y broses, rhaid iddo fod yn barod i fynd i orsaf heddlu i gofrestru'r gŵyn a bod yn barod i ddweud pwy ydyw wrth i'r gŵyn gael ei thrafod (ni dderbynnir achwynion dienw). Rhaid i'r achwynydd fod yn barod i gyfranogi'n llawn yn y broses, a all olygu rhywfaint o draul ariannol a chymdeithasol. Er enghraifft, gwyddys fod preswylwyr y slymiau yn llai tebyg o gwyno nag aelodau o'r dosbarth canol. Dim rhyfedd fod y rheini a labelwyd yn wleidyddol abnormal oherwydd eu bod yn perthyn i bleidiau neu fudiadau lleiafrifol heb fawr ddim hyder mewn trefniadaeth ar gyfer achwynion sydd yn golygu y gwneir yr ymholiadau dechreuol gan yr heddlu eu hunain a wedi hynny, gan Fwrdd Achwynion yr Heddlu sydd yn gyfyng ei bwerau.

Ni chyfeirir achosion i'r Bwrdd Achwynion i'w harchwilio'n fanwl hyd oni fydd yr heddlu wedi cwblhau eu hymholiadau hwy i gwyn, a wedi i ddirprwy brif gwnstabl benderfynu a ddylid disgyblu'r swyddog o dan sylw. Nid oes gan y Bwrdd mo'r gallu i ymchwilio ei gwynion na gosod cosb ddisgyblu ei hunan. Ni all ond gofyn am wybodaeth bellach ne fe all gyfeirio achos yn ôl at y dirprwy brif gwnstabl gyda gwrth-argymhelliad iddo ef ei ystyried. Dengys y ffigurau diweddaraf oddi wrth y Bwrdd y proseswyd rhyw 14,014 o gwynion ym 1979. Cymerai cwynion a dderbyniwyd gan yr heddlu 158 diwrnod i'w prosesu, ar gyfartaledd; cymerai cwynion a dderbyniwyd gan y Bwrdd oddiwrth yr heddlu ar ôl mynd drwy'r drefn briodol 28 diwrnod ychwanegol i'w prosesu, ar gyfartaledd. Y testunau cwyn mwyaf cyffredin yw ymosodiadau, afreoleidd-derau yn nulliau gweithredu'r heddlu (gan gynnwys Rheolau'r Parnwyr) ac anghwrteisi; cwynion felly oedd mwy na hanner y cyfanswm. Datganodd y Bwrdd fod 18 cwyn yn gofyn dwyn cyhuddiadau disgyblaethol yn erbyn heddweision. Mewn pum achos gweithredwyd ar argymhelliad y Bwrdd gan y dirprwy brif-gwnstabl priodol, ac o ganlyniad i hynny cafwyd tri heddgeidwad yn euog.

Dywedodd pump unigolyn yn ystod yr arolwg eu bod wedi achwyn yn swyddogol wrth yr heddlu. Y mae pedwar arall naill ai wrthi'n paratoi achwynion neu'n ystyried gwneud (rai ohonynt gyda chyngor cyfreithiol). Ymatebodd y gweddill yn y modd canlynol:

a. Ni ŵyr rhai sut mae mynd ati i gwyno.
b. Y mae gan rai brofiad blaenorol o'r drefn achwynion ac y maent wedi eu dadrithio ganddi.
c. Y mae rhai heb ddim hyder o gwbl yn y drefn.
ch. Teimla rhai y dialid arnynt am wneud (h.y. caent eu herlid gan yr heddlu).
d. Dywedodd un na fynnai greu trwbl iddo ef ei hun tra'r oedd ar fechniaeth.
dd. Cred nifer ohonynt y dylid ymgymryd ag ymchwiliad annibynnol.

*"Dylid ymholi i'r mater"*

neu

*"Credaf y byddai hynny'n anodd o gofio'r trefniadau sy'n bod eisoes ar gyfer ymchwilio i achwynion yn erbyn yr heddlu"*

neu

*"Dylem fod â'r hawl i gwyno wrth gorff cwbl annibynnol a di-duedd"*

neu

*"Y mae rhoi'r mater yn nwylo'r heddlu yn gofyn am i'r peth gael ei roi mewn coflen a'i anghofio"*



neu

*"Yr heddlu sy'n ymchwilio i achwynion yn erbyn yr heddlu"*

neu

*"Dylid cynnal ymchwiliad swyddogol a chyhoeddus i'r modd y bu'r heddlu'n gweithredu cyn i hyn ddechrau digwydd yn rhy fynych yng Nghymru"*

neu

*"Yr wyf eisoes wedi dilyn y drefn ffurfiol. Y mae'n gwbl ragfarnllyd ac nid oes gennyf ddim hyder o gwbl yn ei heffeithiolrwydd o safbwynt y cwynion".*

neu

*"Nid ydym o'r farn fod cwynó'n ffurfiol yn syniad da. Byddai'n debygol o beri mwy o drwbl i ni yn y dyfodol"*

neu

*"Wn i ddim bod unrhyw ŵr a'r drefn"*
*"Wn i ddim sut mae cwyno'n swyddogol"*
*"Wn i ddim digon ynglŷn â chwyno. Ychydig iawn o bobl a ŵyr".*

neu

*"Er gwaethaf rhai newidiadau diweddar, rwyf o'r farn mai ffars yw'r holl beth".*

neu

*"Yr wyf wedi ystyried hyn ond rhaid i mi ystyried effaith negyddol rhyw beth fel hyn ar fy mywyd yn gyffredinol ... nid wyf yn siŵr o beth i'w wneud".*

neu

*"Heddiw (8.4.80) mi fyddaf yn cwyno'n swyddogol wrth y Prif Gwnstabl gan nad oes gennyf ddigon o ddillad nac esgidiau i newid i mewn iddynt erbyn hyn. Os na fyddaf wedi derbyn fy nillad a'm hesgidiau yn ôl erbyn 18.4.80 bwriadaf ofyn i'r heddlu i dalu am bar o esgidiau, siwmper a throwsus i mi".*

Ar sail yr ymatebion hyn, ni ellir tybio fod pobl yn teimlo fod eu cwynion yn rhi bitw i'w hystyried o ddifrif, neu fod arnynt ofn ymholiadau i'w datganiadau. Y mae goslef yr ymateb fel pe bai'n adlewyrchu diffyg hyder yn y drefn i ymdrin ag achwynion yn erbyn yr heddlu. Y mae'r adroddiadau yn awgrymu cefnogaeth gref i ymchwiliad annibynnol i weithgaredd yr heddlu yn ystod Operation Tân. Dichon mai awgrym arall fyddai i gyrff annibynnol yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol sefydlu cynllun tymor-hir i gadw llygad ar yr heddlu. Byddai'r awgrym hwn yn adlewyrchu'r gwir angodau, sef nad digwyddiad unigryw oedd Operation Tan, ond rhan o batrwm ehangach o heddgeidwadaeth.

# PATRYMAU HEDDGEIDWADAETH

## Y GANGEN ARBENNIG A 'GWYRBLEIDIAETH'

*"Y mae'r rhan fwyaf o wledydd democrataidd heddiw mewn mwy o berygl oddi wrth wyrbleidiaeth fewnol nag ymosodiad allanol. Y mae'n ddyletswydd clir ar eu llywodraethau i atal y rheini sydd â'u bryd ar danseilio democratiaeth rhag elwa ar y rhyddid a ganiateir iddynt gan y ddemocratiaeth honno. Y mae'n gwbl hanfodol fod yr heddlu mewn cymdeithas rydd yn nodi'n fanol weithgareddau agored neu ddirgel y perthyn iddynt yr amheuaeth leiaf o wyrbleidiaeth. Yn hytrach na phoeni am geisio cyfiawnhau bodolaeth Cangen Arbennig dylid ei gwneud yn glir fod unrhyw lywodraeth nad yw'n fodlon sefydlu a chynnal Cangen o'r fath yn methu yn ei dyletswydd i amddiffyn y rhyddid hwnnw yr ystyrir ei fod yn hanfodol i ddemocratiaeth. Bron yn ddieithriad, daw'r gwrthwynebiad i Ganghennau Arbennig oddi wrth grwpiau pwyso gwleidyddol hunan-benodedig y mae'r cyhoeddusrwydd a roddir iddynt yn y wasg yn eu hannog i drawsfeddiannu swyddogaeth y rheini a etholir yn ddemocrataidd i warchod a phennu terfynau ein rhyddid fel dinasyddion".*

(Syr Robert Mark, dyfynnwyd yn *State Research Bullein* Rhif 10, 1979).

Pwy fydd y Gangen Arbennig yn eu gwylio? Y mae'r ateb fel pe bai'n dibynnu ar gwmpas gweithredol y term "gwyrbleidiwr" *(subversive)*. Rhoddwyd y diffiniad modern safonol o'r term gan yr Arglwydd Denning yn ei adroddiad ym 1963 ar achos Profumo. Dywedodd mai gwyrbleidwyr oedd pobl "a fyddai'n ystyried dymchwel llywodraeth drwy ddulliau anghyfreithlon". Rhoddwyd y gorau i feini prawf manwl Denning ym 1978, yn un o'r ychydig ddadleuon seneddol a fu ar y Gangen Arbennig pan wnaeth Merlyn Rees, yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, yr araith seneddol faith gyntaf gan Ysgrifennydd Gwladol i amddiffyn y Gangen Arbennig. Yn ystod ei araith, dywedodd mai gweithgareddau gwyrbleidiol oedd y rheini sy'n "bygwth diogelwch a lles y wladwriaeth, ac y bwriedir iddynt danseilio neu ddymchwel democratiaeth seneedol drwy ddulliau gwleidyddol, diwydiannol neu dreisgar".



Y mae diffiniad Rees yn disodli "dymchwel llywodraeth" yn niffiniad Denning gyda chyfres o bethau llawer ehangach a llai hawdd eu diffinio. Y mae'r rheini'n cynnwys gweithgareddau sy'n gwneud dim byd mwy na "bygwth diogelwch neu les" y wladwriaeth - nid dim ond y llywodraeth. Ehangir y dulliau, o ddulliau "anghyfreithlon" Denning i gynnwys "dulliau gwleidyddol, diwydiannol neu dreisgar". Adlewyrchir diffiniad Rees yn Adroddiad Prif Gwnstabl De Cymru am 1978 sy'n cyfeirio at "fudiadau brawychwyr neu wyrbleidwyr" yng nghyd-destun gwaith y Gangen Arbennig. Y mae arwyddocâd y cyfosodiad hwn yn amlwg. Ys dywed *State Research* y mae'n cyplysu "brawychaeth (sy'n golygu dulliau trais) a gwyrbleidiaeth (a all gynnwys, yn ôl y diffiniad swyddogol, POB gweithgaredd gwleidyddol a gweithgareddau'r undebau llafur) mewn modd cyfleus".

## CYNIGION I EHANGU PWERAU'R HEDDLU

Y mae heddgeidwadaeth wleidyddol yn arwydd o duedd yng ngwaith yr heddlu tuag at gasglu tystiolaeth a gwybodaeth o natur gyffredinol a dyfaliadol - tuedd a hyrwyddid yn fawr pe mabwysiedid cynigion Syr David McNee i'r Comisiwn Brenhinol ar Drefniadaeth Droseddol a fydd yn adrodd ddiwedd 1980 neu yn gynnar ym 1981. Arwydd o'r duedd hon yw'r symud oddi wrth gasglu tystiolaeth tuag at gasglu gwybodaeth, tuag at gadw gwyliadwraeth ar adrannau o'r gymuned y mae eu hymddygiad neu hyd yn oed y ffaith eu bod yn bod o gwbl yn ennyn drwgdybiaeth einheddlu a reolir gan ragdybiaethau asgell-dde. Fel y dangosir gan ei hadran ar holi gan yr heddlu, canolbwyntiodd ymgyrch yr heddlu yng Nghymru ar gasglu gwybodaeth o natur bersonol a/neu wleidyddol yn hytrach na rhoi terfyn ar weithgareddau troseddol. Fodd bynnag, dengys astudiaeth fanylach o gynigion Syr David McNee i'r Comisiwn Brenhinol, yn rhinwedd ei swydd fel Comisiynydd yr Heddlu Metropolitaidd, nid yn unig sut yr estynnir pwerau presennol yr heddlu yn answyddogol ond hefyd i'r fath raddau y cyfyngid ar hawliau dinesig pe rhoddid sêl bendith y gyfraith ar y pwerau estyngedig y mae ef yn eu harfaethu.

